



EMERGE
NCE

Newid Diwylliant

Sut y mae Artistiaid yn Ymateb i Gynaliadwyedd yng Nghymru

Paul Allen
Emily Hinshelwood
Fern Smith
Rhodri Thomas
Sarah Woods

Tachwedd 2014

Delwedd: Labyrinth gan Erin Rickard a Sean Puleston, comisiynwyd gan Eginiaid



*Raindrops, Emergence Land Journey,
Deidre Nelson*

Diolchiadau

Hoffai awduron yr adroddiad hwn ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau:

Siriol Joyner am gyd-awduro "Celfyddydau, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg", a chyfweliad Euros Lewis.

Astudiaethau achos, cyfweliadau a sgysiau anffurfiol

Avi Allen, Jess Allen, Phil Broadhurst, David Colwell, Sian Cornelius, Bet Davies, Mike Erskine, Emma Evans, Rabab Ghazoul, Owen Griffiths, Sioned Haf, Sara Holden, Ann Jordan, Ariana Jordao Reuben Knutson, Euros Lewis, Rowan O'Neill, Tom Payne, Susan Richardson, Ann Shrosbree, Kate Strudwick, Fern Thomas, Simon Whitehead, Joanna Wright, Claudine Conway, Philip Ralph.

Hoffem hefyd gydnabod bod yr adroddiad hwn yn gwneud defnydd ac yn ategu at ddata oedd yn rhan o ymchwil sylweddol yn y maes gan Hilary Jennings, Lucy Neal a Julie's Bicycle.

Hoffem hefyd ddiolch i Siân Tomos a CCC am eu parodrwydd i chwilio am weledigaeth newydd ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru.

Rhagair

"...Nid oedd gan y rhan fwyaf o ddiwylliannau brodorol air am "gelfyddyd" am nad oeddent yn gwahaniaethu rhwng profiad a mynegiant o'r profiad hwnnw. (Mae'r rôl hon yn mynd yn ôl tua 40,000 o flynyddoedd i'r arlunwyr ogofau a cherddorion. Mae eu 'celfyddyd' dal i'n tawelu efo ei phŵer i gyfleu profiad. Mae gan yr astudiaeth hynod hon o Gymru fodern y potensial i ailsefydlu rôl hynafol artistiaid: i ddangos i'w cymuned y sgiliau a'r ystyriaethau pwysig mae eu goroesiad yn ddibynnol arnynt. A thrwy eu mynegiant artistig, i helpu eu cymuned brofi i'r eithaf beryglon a hyfrydwch eu ffordd bresennol o fyw.

Cymru-- diwylliant creadigol llawn artistiaid -- Mae Cymru yn un o ddim ond tair democratiaeth sy'n barod i fod yn atebol yn gyfreithiol i hybu egwyddorion cynaliadwyedd. Nid yw'n syndod, felly, taw o Gymru daw'r adroddiad blaengar hwn. Heb artistiaid sut gallwn ddarganfod y ffordd mewn i gymuned gynaliadwy, neu greu'r perthnasau sy'n ein cynnal drwy gyfnodau anodd? Yr wyf yn wir ddiolchgar am y gwaith arloesol hwn ..."

Margaret Wheatley, actifydd, ymgynghorydd ac awdur nifer o lyfrau, gan gynnwys *Leadership and the New Science*, ac yn fwy diweddar, *So Far From Home: Lost and Found in Our Brave New World*.

Mae Emergence yn brosiect cydweithredol **Volcano** www.emergence-uk.org

Cynnwys

Cyflwyniad.....	5
Trosolwg Ymchwil.....	10
Celfyddydau Cynaliadwy - Themâu Cyffredin.....	17
Goblygiadau & Argymhellion.....	38
Epilog	44
Cyfweliadau	45

Atodiadau

Mae rhestr gynhwysfawr o atodiadau yn cynnwys: diffiniadau ac egwyddorion datblygu cynaliadwy; crynodeb canlyniadau'r arolwg; mapiau; tablau; graffiau; cyfeiriadau a llyfryddiaeth; rhestr o adnoddau a chysylltiadau defnyddiol; manylion ymatebwyr yr arolwg a'u prosiectau a bywgraffiadau awduron ar gael ar wefan Eginiaid fan hyn: <http://www.emergence-uk.org/wp-content/uploads/CULTURE-SHIFT-Appendices.pdf>

Cyflwyniad

" Os yw'r gwyddonwyr yn gywir, rydym yn byw trwy'r peth mwyaf sydd wedi digwydd inni. Mae un rhywogaeth, sef ein un ni, wedi llwyddo, mewn 'mond ychydig o genedlaethau, i godi tymheredd planed gyfan yn sylweddol, i wthio ei systemau mwyaf sylfaenol allan o drefn. Ond yn rhyfedd, er ein bod yn ymwybodol o hyn, nid ydym yn ymwybodol o hyn. Nid yw wedi'i nodi; nid yw'n rhan o'n diwylliant. Ble mae'r llyfrau? Y cerddi? Y dramâu? Yr operâu, er mwyn dyn?"

(McKibben, B. 2005)

Felly ysgrifennodd yr amgylcheddwr Bill McKibben mewn erthygl ar gyfer Open Democracy yn 2005, barn ag adleisiwyd yn yr un flwyddyn gan yr awdur Robert MacFarlane yn The Guardian, a ofynnodd "Ble mae'r ymateb creadigol i'r hyn disgrifiwyd gan Syr David King, prif gynghorydd gwyddonol y llywodraeth, fel "y broblem fwyaf difrifol i'r byd wynebu?"?" Dros y blynyddoedd ers hynny, mae'r ymateb creadigol wedi datblygu, ac yn fwy diweddar rydym wedi gweld diddordeb cynyddol yn rôl y celfyddydau mewn materion amgylcheddol a chymdeithasol. Mae dilyn hynt yr ymatebion yma ac, yn fwy penodol, archwilio profiadau, heriau ac ymatebion i brosiectau celfyddydol sy'n ceisio 'gwybod' (i ddefnyddio ymadrodd gan Bill Mc Kibben) am y problemau amgylcheddol mawr rydym yn eu hachosi a'u hwynebu, yn sicrhau bod y gwaith hwn yn weladwy, yn ddealladwy, ac yn ymateb mor effeithiol â phosibl i alwad Bill McKibben. Ar ei waethaf, dehonglwyd cyfuno'r celfyddydau a chynaliadwyedd fel ymarferiad ticio blychau cyfrannol, neu brosiect peiriannu cymdeithasol; ar ei orau fe'i gwelir fel rhan o'r angen cynyddol i'r celfyddydau ein helpu ni i ddarganfod ein ffordd yn y newid diwylliannol presennol yr ydym yn symud drwyddi.

The Re-Enchantment Of Art

" Yr wyf yn amau ein bod yn dod i ddiwedd rywbeth - diwylliant modern gor-gwryweiddiedig, a'u prosiectau cymdeithasol nawr wedi dod yn fwyfwy anecolegol ac anghynnaladwy. "Suzi Gablik

Yn 1991, ysgrifennodd y beirniad celf Americanaidd Suzi Gablik y llyfr arloesol, *The Re-enchantment of Art*, mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- o A yw pryderon gwleidyddol a chymdeithasol yn y celfyddydau yn cyfrannu at esthetig newydd?
- o A yw artistiaid yn cymryd mwy o ran mewn gwaith sy'n mynd i'r afael â materion cymdeithasol?
- o A oes perthnasedd newydd i'r gelfyddyd hon?
- o A yw artistiaid yn gweithredu dulliau o grybwyll natur a materion yr amgylchedd mewn ffyrdd newydd?
- o Beth yw'r berthynas rhwng eu gwaith a gweithredaeth amgylcheddol?

Mae ei hatebion i'r cwestiynau hyn yn codi cwestiynau am y defnydd o gelfyddyd yn y byd ac yn ein hatgoffa taw dim ond 5-10 y cant o grŵp o bobl sydd ei hangen i newid er mwyn i'r newid yma ledi. "Rhaid inni edrych yn syth i'r ymylon a'r perifferïau, os ydym am ddod o hyd i'r creiddiau a fydd yn ganolog i gymdeithas yn y dyfodol, gan mae fan hyn y byddant i'w gweld yn dod i'r amlwg."

Aeth The Re-enchantment of Art ymlaen i fod yn ysbrydoliaeth allweddol ar gyfer artistiaid a gwneuthurwyr newid creadigol. Darllenir yn fyd-eang o hyd, ac mae'n ymddangos yn fwy perthnasol yn awr nag erioed o'r blaen.

Diffiniad Datblygu Cynaliadwy

Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio diffiniad Llywodraeth Cymru o Ddatblygu Cynaliadwy:

"Yng Nghymru, ystyr datblygu cynaliadwy yw gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, sicrhau gwel ansawdd bywyd ar gyfer ein cenedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol:

Mewn ffyrdd sy'n hybu cyfiawnder cymdeithasol a chyffleoedd cyfartal, ac sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a pharchu ei derfynau - defnyddio ein cyfran deg ni o adnoddau'r ddaear yn unig a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

Datblygu cynaliadwy yw'r broses yr ydyn ni'n dilyn i gyrraedd nod cynaliadwyedd."

Mae Cymru yn un o ddim ond tair democratiaeth yn y byd sydd â dyletswydd statudol i hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Siarter Datblygu Cynaliadwy yn 2012 ac mae'n bwriadu cyflwyno Mesur yn 2015 i arwngwyllo'r sefyllfa hon.

Comisiynwyd yr adroddiad Newid Diwylliant: Sut y mae Artistiaid yn Ymateb i Gynaliadwyedd yng Nghymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) i archwilio'r 'ymateb creadigol' hwn yng Nghymru: i nodi prosiectau allweddol, mentrau, rhwydweithiau a sefydliadau sy'n rhan o'r hyn sy'n dod yn sector amlwg o fewn y celfyddydau; i ddarganfod themâu, rhediad, edafedd a chyffredinedd; ac i sefydlu darlun cynrychiadol o sut defnyddir egwyddorion cynaliadwyedd i ategu at brosiectau creadigol, ac yn gyferbyniol, sut defnyddir egwyddorion creadigol i wella prosiectau cynaliadwyedd.

Mae lluo o gelfyddydau a mentrau cynaliadwyedd, gan gynnwys Transition Towns, Dark Mountain, Tipping Point, Julie's Bicycle, Platform, Creative Carbon Scotland, Case for Optimism, ac mae 'cymuned o ymarfer' yn tyfu yma yn y DU. Mae bodolaeth y mentrau a rhwydweithiau hyn wedi arwain at y DU yn cael ei chydabod fel arweinydd mewn ymatebion creadigol i newid yn yr hinsawdd, cyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd, gyda llawer

o'r uchod yn derbyn gwahoddiadau i gyfrannu at, a threfnu cyfarfodydd ledled y byd. Ar yr un pryd, mae criw o artistiaid sydd yn lled-gysylltiedig, ond yn ymatebol iawn, wedi datblygu, gan ymgysylltu â materion systemig megis adfywiad, cymuned, cyfiawnder cymdeithasol a'r amgylchedd.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwybodol ei fod yn adeiladu ar waith eraill yn y maes hwn gan bobol eraill ledled y DU: Yn 2010 ceisiodd Sustainable Ability (Neal & Jennings, 2010) "mapio ymatebion trawsnewidiol i brinder adnoddau a newid yn yr hinsawdd gan unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn y celfyddydau". Yn fwy diweddar, gwnaeth Sustaining Creativity (Julie's Bicycle, 2014) arolwg o sefydliadau celfyddydol mewn "rhaglen newydd uchelgeisiol i gyflymu'r ymateb diwylliannol i'r amgylchedd".

Mae'n amgyffrediad cyffredin, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n byw y tu allan i'w ffiniau, bod Cymru yn fecca ar gyfer mentrau gwyrdd. Y Ganolfan Dechnoleg Amgen, John Seymour - arloeswr y mudiad 'yn ôl i'r tir' - a Tipi Valley, un o eco-gymunedau gwreiddiol y DU, pob un ohonynt wedi'u sefydlu yma yn y 1970au a'r 80au, ac ers hynny mae cymunedau 'llai heriol' megis Llamas wedi dilyn yn eu sgil. Mae'r cynlyn a gychwynwyd yn 2011 o godi tâl am fagiâu siopa wedi smentio'r canfyddiad hwn. Fodd bynnag, yng nghyd-destun ymatebion creadigol i gynaliadwyedd, mae'n ymddangos bod y ddau adroddiad a grybwyllwyd uchod yn gwrth-ddweud y syniad hwn o genedl sy'n effro i'r amgylchedd ac yn eco-ymwybodol.

Nododd Sustainable Ability 190 o fentrau yn y DU, ond ni fapiwyd unrhyw weithgaredd yng Nghymru. Roedd canlyniadau Sustainable Ability hefyd yn siomedig gyda dim ond tri ar ddeg o sefydliadau celfyddydol yng Nghymru yn dewis i gyfrannu at arolwg ledled y DU am agweddau ac arferion cynaliadwy. Mae canlyniadau o'r fath yn rhoi'r argraff bod Cymru naill ai yn anweledig neu'n perfformio'n is na chyfartaledd y DU parthed ymgysylltu presennol. Nod y comisiwn hwn yw edrych ar y llun yma yn fanylach, a darganfod beth sy'n digwydd. Ei nod yw rhoi llais i rywbeth sydd yn bendant wedi cychwyn : sef bod nifer o artistiaid yn cwestiynu neu'n newid eu harferion creadigol yn sylfaenol. Mae rhai yn cymryd camau cynnar y daith hon, tra bod eraill wedi bod yn datblygu gweddnewidiad o'i agwedd ers blynyddoedd. Mae rhai yn gweithio ar eu pen eu hunain, tra bod eraill yn ymgymryd â rôl arweinyddiaeth a datblygu prosesau cydweithredol.

Pam bod artistiaid yn ymateb - Ynni a'r Amgylchedd

Dyma'r broblem. Os byddwn yn parhau i losgi tanwydd ffosil ar y gyfradd bresennol, bydd yr allyriadau yn sbarduno newidiadau enfawr ac anghildroadwy mewn systemau naturiol. Ond mae'r galw byd-eang am olew yn tyfu'n gyflym.

Mae CO₂ yn yr atmosffer bellach wedi codi i fwy na 400 rhan y filiwn, yn uwch nag mewn unrhyw adeg yn ystod y 800,000 mlynedd diwethaf. Dros y misoedd diwethaf, yn dilyn profiad personol uniongyrchol o gostau dynol ac economaidd o'r newid yn ein hinsawdd, mae llawer o bobl yn dechrau dyfalu faint yn waeth all pethau fynd. Heb dargedau datgarboneiddio llym, mae'r byd yn wynebu mwy o ganlyniadau dinistriol a fydd nid yn unig yn ansefydlogi ac yn achosi gwrthdaro rhwng sawl rhanbarth o'r byd, ond bydd hefyd yn dinistrio cartrefi, bywoliaeth a busnesau filiynau o bobl. (The Royal Society. 2007)

Pam Cymru?

Canrif yn ôl roedd 232,000 o ddynion yn gweithio mewn 620 o byllau glo. Roedd Cymru'n cyflenwi traean o lo'r byd. Caerdydd oedd Kuwait ei dydd, yn allforio ynni i bob rhan o'r Ymerodraeth a thu hwnt. Roedd yn ymddangos nad oedd unrhyw derfyn i'r gallu neu'r twf yn hyn, cenedl ddiwydiannol gyntaf y byd. Roedd y cyfan yma: haearn, plwm, glo; camlesi, rheilffyrdd, porthladdoedd môr; ond gallai dim o hyn wedi digwydd heb y sgiliau, yr impiad a dyfeisgarwch cenedlaethau o ddynion a menywod gweithgar.

Cymru arweiniodd y byd i mewn i danwydd ffosil, gan arloesi'r newidiadau a heriau'r tanwyddau hyn, ac eto erbyn heddiw mae Cymru bellach wedi dod yn arweinydd yn y ras i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyflwyno ein llesiant, yn seiliedig ar ffynonellau ynni glân newydd sy'n fwy addas ar gyfer anghenion economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol yr 21ain ganrif. Mae gan Gymru'r cyfan sydd ei hangen i arwain y ford allan o danwydd ffosil. Mae ganddi rai o'r adnoddau adnewyddadwy gorau yn Ewrop; gwynt, llanw, tonnau, biodanwydd. Mae gan Gymru sgiliau, hyfforddiant, gweithgynhyrchu, arloesedd, cysylltedd ac ymdeimlad sy'n dod i'r amlwg drwy hyder cenedlaethol. Ond er mwyn cael y gorau allan o her driphlyg mor enfawr, mae'n golygu defnyddio'r amser a'r olew sy'n weddill yn effeithiol. Er ei bod yn arwain y byd mewn sawl ffordd, mae cyfradd y pontio dal yn llawer rhy araf i roi cyfle rhesymol i ysgogi cytundeb byd-eang ac atal newidiadau amgylcheddol dinistriol. Mae yna, wrth gwrs rhwystrau technegol, ond mae'r heriau mwyaf yn ddiwylliannol. (Zero Carbon Britain; Ashbourn; Wales Underground; BBC Wales History)

Er mwyn olrhain hyd a lled ac amrywiaeth y prosiectau, ac i edrych ar bwy sy'n gwneud beth, ble a pham, rydym yn cynnwys y sectorau 'swyddogol' (yn hysbys i CCC ac sy'n cael arian rheolaidd) a'r 'answyddogol' (ymylol neu'n anweledig) yng Nghymru. Roeddem wedi rhagweld, er bod ychydig o arweinwyr newid allweddol eisoes o fewn y sefydliad diwylliannol yng Nghymru, y buasai llawer o'r arweinyddiaeth yn dod o'r ymylon. Mae hyn yn cynnwys artistiaid ac unigolion sy'n torri i ffwrdd, yn gweithredu gydag ychydig neu ddim proffil, gweithio ar ben eu hunain neu'n arwain prosiectau lle mae'r uchelgais a'r effaith yn gorbwysu'r gydnabyddiaeth gyhoeddus. Ni fyddai hyn wedi bod yn berthnasol i gylch gwaith yr astudiaeth Sustaining Creativity, ac efallai buasai peryg o'i golli gan Sustainable Ability/Gallu Cynaliadwy, gan fod angen gwybodaeth fwy lleol i ddarganfod y rhain.

Daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer ein harolwg o ddiffiniad Brundtland o ddatblygu cynaliadwy - "datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain" (Our Common Future 1987). Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr i ofalu am eu dealltwriaeth 'sythweledol' eu hunain o gynaliadwyedd. Mae Cymru yn un o ddim ond tri o ddemocratiaethau yn y byd sydd â darpariaeth cynaliadwyedd yn rhan annatod o'i Chyfansoddiad (gweler y blwch) a'r hyn sy'n sylfaenol i'r diffiniadau ac i'r gwaith a nodwyd yn yr adroddiad hwn yw bod gan gynaliadwyedd gyrhaeddiad eang, ac yn ymwneud a newid systemig, nid dim ond materion unigol. Nid yw cyfathrebu rhywbeth pellgyrhaeddol a chymhleth fel hyn yn hawdd. Wrth ysgrifennu am ddarlith Stephen Emmet a Katie Mitchell Ten Billion, dywedodd Wallace Heim. "Mae hwn yn diriogaeth llawer mwy dryslyd, sy'n gofyn am ddychymyg dynol a llawer o lwybrau o gudd-wybodaeth, trafodaeth, gwrthdaro a chydysniad" (Heim 2012).

Mae'r gwaith yn yr adroddiad hwn yn ymateb gan artistiaid at angen canfyddedig, at ymdeimlad bod amgylchiadau wedi creu 'gofod siâp celfyddyd' o amgylch rhai o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd - ac mai ein cyfrifoldeb ni yw defnyddio'r gofod mewn ffyrdd sy'n ddefnyddiol, er mwyn annog asiantaethau a galluogi symudiad a newid diwylliannol.

Joanna Wright

Yn ystod 2012/13 y gwneuthurwraig ffilmiau Joanna Wright oedd artist preswyl y Ganolfan Dechnoleg Amgen, (a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru,) i weithio gyda'r prosiect ymchwil Prydain Di-garbon.

"O fy mhrofiad i, y senario ddelfrydol buasai cyfnod preswyl i alluogi'r artist i gwestiynu ac i ddatblygu gwaith mewn ymateb i brosiect penodol mewn ffordd agored, ymholgar ac anghyfyngedig, a pheidio rhoi unrhyw bwysau i gyfleu neges neu berfformiad penodol mewn cynhyrchiad cyfryngol neu er mwyn hyrwyddo eu gwaith. Un her fawr, ar gyfer gwyddoniaeth, ac ar gyfer y celfyddydau, yw creu cyfathrebu agored sy'n hygyrch, er mwyn ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd a dechrau sgysiaid newydd yn ymwneud â materion cymhleth ac yn ymrannol.

Yr wyf am barhau i gydweithio gyda Zero Carbon Britain, ac mewn trafodaethau am gynaliadwyedd a'r celfyddydau, ac yn ymwneud a phrosiectau gwyddonol a celfyddydol penodol yn yr Unol Daleithiau."

www.cat.org.uk <<http://www.cat.org.uk/index.html>>
www.oriel Davies.org/en/exhibition/future-postcards
<<http://www.oriel Davies.org/en/exhibition/future-postcards>>
www.cat.org.uk
www.oriel Davies.org/en/exhibition/future-postcards

O reidrwydd, mae llawer o'r gwaith hwn yn cychwyn yn agos at y bobl a'r cymunedau sydd ei angen. Mae'n eginol, yn ymylol ac yn aml yn anodd ei gategoreiddio. Fel mae ein hadroddiad yn datgelu, mae'r ymdeimlad hwn o gyfrifoldeb dinasgar i'w weld yn amlwg gan ystod eang o ymarferwyr creadigol. Dawnsywyr a dylunwyr dodrefn, dramodwyr ac ymgyrchwyr cymunedol i gyd yn siarad yr un iaith. Nid dim ond gwaith 'am' gynaliadwyedd yw hyn, mae'n waith sy'n modelu cynaliadwyedd fel ffurf yn ogystal â chynnwys, gan orfodi arferion artistig a dulliau newydd o ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n gwneud y gwaith mae angen i'r celfyddydau i'w wneud yn awr.

Nid yw'r gelfyddyd yn yr adroddiad hwn yn bodoli yn unig ar gyfer ei hun; mae'n bodoli mewn perthynas - a'r byd, y gymuned, a newid, a chyfanrwydd ac at ein hangen ar gyfer dyfodol cadarnhaol. Ynghyd â'r artistiaid sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn, rydym yn gobeithio ei fod yn chwarae ei rhan yn "annog eginiaid fframwaith mwy cyfranogol, rhyngweithiol a chymdeithasol ar gyfer celf". (Gablik, S. 1991)



Tilting at Windmills, Jess Allen

Trosolwg o'r Ymchwil

Un o brif amcanion y comisiwn hwn oedd nodi rhwydwaith o unigolion, prosiectau a sefydliadau sy'n gweithio o fewn y celfyddydau sydd â chynaliadwyedd fel egwyddor graidd drefniadaethol. Dewisom ddisgrifio'r rhain fel 'symbylyddion' gan ddefnyddio terminoleg a gyflwynwyd yn adroddiad Lucy Neal & Hilary Jennings Sustainable Ability (2010) ac o'r farn eu bod yn arwain y ffordd gydag ymateb creadigol Cymru i faterion cyfredol sydd o bwys. Rydym yn ymwybodol bod gan y symbylyddion hyn lawer yn gyffredin o ran agweddau a chymhellion er bod gwahaniaethau sylweddol o ran maint, trosiant neu weithgaredd.

Drwy gyfrwng arolwg, astudiaethau achos a chyfweiliadau manwl, rydym yn ceisio adnabod llinynnau cyffredin yn y prosesau a'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan y cychwynwyr hyn; beth allai gefnogi mwy o newid yn y maes; a beth yw'r rhwystrau a'r heriau canfyddedig i hyrwyddo eu gwaith. Mae ein hymchwil yn ein galluogi i gael syniad o'r rôl mae ymarferwyr creadigol sy'n gweithio yng Nghymru yn meddwl sydd ganddynt wrth greu dyfodol cynaliadwy; ac i nodi'r maint a'r math o weithgaredd celfyddydol cynaliadwy sy'n gweithredu ar hyn o bryd yng Nghymru. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi rhoi cyd-destun y gweithgaredd hwn trwy lunio rhestr o adnoddau, prosiectau a mentrau sy'n gweithredu yng ngweddill y DU a thu hwnt. Mae'r adnoddau hyn yn cael eu cynnwys yn yr atodiadau i'r ddogfen hon.



Methodoleg

Dewiswyd y tîm ar gyfer y prosiect hwn ar sail eu profiad ym meysydd cynaliadwyedd a'r celfyddydau, a ganddynt wybodaeth am weithio o lawr gwlad i lefel polisi, mewn ystod o genres celfyddydol, a meysydd o gynaliadwyedd.

Green Routines, Awe Aman Tawe

Y bwriad oedd cofnodi yn benodol barn a phrofiadau ymarferwyr celfyddydol sy'n adnabyddus am eu hymrwymiad i gynaliadwyedd. Defnyddiwyd arolwg i gael cipolwg, wedi ei lywio gan ddata, o ystod yr ymarfer celfyddydol cynaliadwy sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac i gael gwybodaeth ansoddol bellach drwy gyfweiliadau lled-strwythuredig ac astudiaethau achos. Roedd hyn yn gymorth i lywio darlun mwy cyfannol o'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yng Nghymru, ac maent wedi eu cynnwys a'u cyfeirnodu drwy gydol y ddogfen.

Cyfweliadau ac Astudiaethau Achos

Dewiswyd yr astudiaethau achos a chyfweliadau yn bwrpasol i adlewyrchu amrywiaeth o unigolion a phrosiectau sy'n gweithio yn y maes hwn. Dewiswyd yr 14 astudiaethau achos a gynhwysir yn y tudalennau canlynol, o blith ymatebwyr i'r arolwg a gyflwynodd sylwadau ar bwyntiau penodol sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn. Fe'u dewiswyd yn fwy fel cynrychiolaeth o'r math yma o waith yn hytrach nag yr unig enghreifftiau o arfer gorau i ni ddod ar eu traws. Cynhaliodd aelodau'r fîm gyfres arall o gyfweliadau manwl, ac mae pedwar ohonynt wedi eu cynnwys ar ddiwedd yr adroddiad.

Arolwg

Ni ddewiswyd y sampl ar hap, ond yn hytrach yn gyfres o gysylltiadau a nodwyd gan y fîm prosiect trwy sgwrsio, cysylltiadau ffurfiol a rhwydweithiau anffurfiol. Roedd hon yn rhestr gynrychioliadol ond nid yn gynhwysfawr o'r ddau gysylltiad celfyddydol (canfyddedig bod ganddynt arferion a pherwyl cynaliadwy) a chysylltiadau cynaliadwyedd (maent yn gweithio drwy gyfrwng y celfyddydau). Mae'r rhestr hon yn cynnwys rhai sydd wedi'u lleoli ym mron pob rhanbarth yng Nghymru ac yn cynnwys ystod o weithgareddau a ffurfiau celfyddydol mor eang â phosibl. Yn ogystal, gwnaethpwyd ymdrech sylweddol i leoli cysylltiadau sy'n gweithio'n bennaf drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Penodwyd nifer o ymgynghorwyr ac aelodau penodol o'r fîm i sicrhau hyn.

Dyluniwyd holiadur Survey Monkey dwyieithog er mwyn mynd i'r afael ag ystod o faterion, o drosiant a chyllid, i werthoedd, cymhellion a rhwystrau. Roedd gennym ddiddordeb mewn ennill ymdeimlad o'r edafau cyffredin o fewn prosiectau, ar draws nifer o newidolion gan gynnwys genre celf, rhanbarth ac iaith.

Cafodd yr arolwg ei bostio i 150 o gysylltiadau drwy Mailchimp, gyda gwahoddiad i'w anfon ymlaen i eraill os oedd eu gwaith yn cael ei ystyried yn briodol i'r prosiect. Dilynwyd hyn gyda negeseuon e-bost personol gan aelodau o'r fîm i annog defnydd ehangach. Roedd yr arolwg yn fyw am dair wythnos ym mis Chwefror 2014. Mewn ymateb i gais gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gwahoddwyd hefyd 71 o Sefydliadau Refeniw (SR) i gymryd rhan yn yr arolwg. Derbyniwyd 104 o ymatebion (4 yn Gymraeg), 64 ohonynt yn dod o sefydliadau (gan gynnwys 19 SR). Mae'r map uchod yn rhoi manylion a lleoliad yr ymatebwyr.



Trosolwg o'r Arolwg

Mae amrywiaeth eang o brosiectau celfyddydol cynaliadwy sy'n gweithredu yng Nghymru gyda neu heb gyllid, ac mae rhestr o'r rhain i'w gweld yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn. Mawr a bach, wedi neu heb eu hariannu, maent yn amrywio ar draws rhanbarthau a genres celfyddydol. Ond mae ganddynt gryn dipyn yn gyffredin, un o'r pethau allweddol yw eu bod yn rhannu'r gred fod gan y celfyddydau rôl wrth greu dyfodol mwy cynaliadwy.

Mae chwe deg pump y cant o'r ymatebwyr yn ystyried eu hunain yn 'gychwynwyr' yn y sector hwn sy'n dechrau dod i'r amlwg; pobl sy'n credu (ac yn gweithredu ar y gred) fod 'gan y celfyddydau ran i'w chwarae wrth greu dyfodol mwy cynaliadwy.' Dangosodd yr arolwg bod nifer o Sefydliadau Refeniw a ymatebodd (18%) yn cydnabod pwysigrwydd cynaliadwyedd, llond llaw ohonynt yn arweinydd yn y maes. Mewn rhannau o'r adroddiad, gan gynnwys y cyfweiliadau ac astudiaethau achos, rydym yn canolbwyntio'n benodol ar ganlyniadau'r cychwynwyr hyn i archwilio eu profiadau yn fwy manwl. Mae canlyniadau'r cychwynwyr yn adlewyrchu'r patrwm o fod yn wybodus, o gymhelliant, o fod yn weithgar ac yn gysylltiedig o ran materion cynaliadwyedd. Mae hyn i'w weld yn cadarnhau'r syniad bod carfan fechan ond arloesol o artistiaid ym mhob genre yn gwthio ymlaen tuag at ddyfodol cynaliadwy.

Mae nifer llethol o 'gychwynwyr' o'r farn bod cynaliadwyedd wedi dod yn bwysicach yn ystod y ddwy flynedd diwethaf a bydd yn cynyddu o ran pwysigrwydd yn y dyfodol. Yn hanfodol, mae'r gydnabyddiaeth hon o bwysigrwydd cynaliadwyedd yn cyfateb â dealltwriaeth o'r materion, gyda bron pob un o'r ymatebwyr yn cofnodi dealltwriaeth dda neu ragorol. Gallai hyn awgrymu

Canolfan Mileniwm Cymru

Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn adeilad celfyddydol mawr, gyda naw o sefydliadau creadigol o dan yr un to yn ogystal ag adwerthwyr annibynnol. Mae gan y Ganolfan dwy theatr, sef Theatr Donald Gordon (1,900 sedd) a stiwdio 250-sedd, hefyd gofodau perfformio yn y cyntedd, ystafelloedd cyfarfod a lletygarwch, caffis, bwytai a siopau.

"Pan agorodd yn 2004, nid oedd y Ganolfan wedi'i gynllunio i safonau BREEAM. Serch hynny mae wedi cael ei hadeiladu i safonau rhyngwladol. Gyda hynny mewn golwg, penderfynodd y Ganolfan i geisio, a derbyn, achrediad rhyngwladol amgylcheddol ISO 14001 yn 2009. Hwn oedd ein cam cyntaf tuag at gynaliadwyedd.

Wrth ddechrau ar ein taith, roedd cyfathrebu yn allweddol, wrth inni deilwra negeseuon gwahanol ar gyfer rheolwyr, rhanddeiliaid a staff. Er enghraifft, roedd themâu staff yn seiliedig ar achub y blaned, a'r hyn y maent fel yr unigolion yn gallu eu gwneud gartref. Ar gyfer uwch reolwyr, roedd negeseuon yn cynnwys arbedion cost, mantais gystadleuol (o ran codi arian, archebion am ddiwyddiadau gan gwmnïau CSR etc).

Wrth i drafodaethau newid hinsawdd gynyddu, daeth yn amlwg na allai'r staff uniaethu bellach â'r negeseuon byd-eang. Yn 2011 daeth y Ganolfan yn un o'r sefydliadau celfyddydol cyntaf i ymrwmo i Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Ar y dechrau, roedd rhai oedd yn amau a allem gyflawni hyn. Fodd bynnag, wedi inni edrych mewn i'r ymrwymiad gofynnol, daethom i'r casgliad ein bod eisoes yn gweithredu felly. Roedd yn haws darbwyllo a rhoi negeseuon i'r staff am gynladwyedd wedi iddynt sylweddoli nid dim ond yr amgylchedd oedd dan sylw; ei fod hefyd yn ymwneud â datblygiad cymdeithasol a gweithgarwch economaidd. Nawr mae'n glir i bawb bod yr arbedion a wneir, er enghraifft ar ynni (£ 250k y flwyddyn o linell sylfaenol 2006/7) yn cael eu rhoi yn ôl i mewn i'r celfyddydau, i ymgysylltu â'r gymuned, dysgu creadigol, ac er mwyn cyflawni ein hamcanion elusenol. Mae ennill cydnabyddiaeth ledled y DU (ee Gwobr BIFM am Gynaliadwyedd ac Effaith Amgylcheddol 2012), wedi ennyn mwy o ymrwymiad i egwyddorion cynladwyedd ar bob lefel ac ymysg rhanddeiliaid." (Bet Davies, Pennaeth Cyfathrebu, Canolfan Mileniwm Cymru)

www.wmc.ora.uk

bod artistiaid yn ymwybodol y bydd ymrwymiad i gynaliadwyedd yn eu paratoi ar gyfer gwneud cais am gyllid, fodd bynnag, mae'n fwy tebygol o fod yn dystiolaeth o ymdeimlad cynyddol o ddiben a chyfrifoldeb cymdeithasol rydym yn gweld mewn perthynas â rôl y celfyddydau yn y trosiad at "gymdeithas sy'n cynnal bywyd" (Macy, J. 1998).

Mae ymatebwyr yn cytuno bod gan y celfyddydau rôl hanfodol wrth symud tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, gyda 78% o 'gychwynwyr' yn hawlio bod y celfyddydau yn hanfodol bwysig ac yn gallu gwneud rhywbeth na all unrhyw sector arall ei wneud. Mae'r rhan fwyaf yn datgan eu bod yn cymryd rhan mewn celf 'berthynol' neu 'empathetig a chyfranogol'. Mae un rhan o dair yn diffinio eu gwaith fel 'celfyddydau cymunedol', a 30% arall yn dweud eu bod yn gweithio mewn theatr a drama, ond mae newid amlwg lle mae artistiaid yn mabwysiadu lluo o rolau a chyfryngau yn gynyddol, gyda chymorth technoleg ac ymdeimlad o'r arlunydd fel asiant creadigol yn hytrach nag yn cael ei ffinio gan un math o gelfyddyd.

Trafodir hyn yn fanylach yn y rhan helaeth o'r adroddiad lle rydym yn archwilio, gan ddefnyddio data arolygon a gefnogir gan astudiaethau achos, y gred lethol y gall y celfyddydau wneud yr hyn na all gwyddoniaeth, gwleidyddiaeth, y byd academaidd, y cyfryngau a disgyblaethau eraill ei wneud. Mae gan gelfyddyd y pŵer i greu manau ar gyfer deialog; gall celfyddyd gyfleu gwybodaeth a allai fel arall dieithrio pobl; gall celfyddyd ddod â chymunedau at ei gilydd a gwneud pethau anodd yn ddealladwy; gall celf ysbrydoli pobl â gweledigaethau o ddyfodol cynaliadwy: yn gryno, gall celfyddyd drawsnewid.

Mae canlyniadau'r arolwg yn amlygu'r syniad o gynnwys yn erbyn arfer. Roedd y grŵp mwyaf o ymatebwyr (bron i hanner) yn ystyried cynaliadwyedd yn hanfodol i'r dasg a'r cyflwyniad o'u gwaith. Fodd bynnag, mae gwneud gwelliannau i'r prosesu a'r cyflwyniad o waith artistiaid, trwy ostwng effaith adeiladau a chyfleusterau, yn dal i fod yn hanfodol, yn enwedig gan fod 72% o waith yr ymatebwyr yn seiliedig mewn adeiladau, er yn gynyddol mewn gofodau celfyddydau llai traddodiadol e.e. siopau gwag (Volcano@229 yn Abertawe, International Airspace yng Nghasnewydd a re:store ym Mangor).

Mae lleiafrif o'n cychwynwyr yn rhedeg sefydliadau gyda throsiant o fwy na £500,000, gan gyrraedd dros 100,000 o bobl bob blwyddyn, ond mae'r mwyafrif yn fentrau bach o tua deg o bobl neu lai, gyda throsiant o £50,000 neu lai, gan gyrraedd tua 5,000 o bobl bob blwyddyn. Mae gan sefydliadau mwy, wrth gwrs, rôl sylweddol gan fod ganddynt y potensial i gyrraedd cymaint o bobl. Fel y soniodd Bet Davies o Ganolfan Mileniwm Cymru - "Dylai mudiadau mawr fel ni gael eu defnyddio fel modelau o arfer gorau." Wedi dweud hynny, mae hi hefyd yn pwysleisio rôl sefydliadau llai, mwy hyblyg: "y rhagdybiaeth yw os ydych yn fawr y gallwch chi wneud mwy, ond y mae mewn gwirionedd yn haws i sefydliadau bach i symud, a newid diwylliant. Mae troi llong fawr yn fwy heriol na manwro cwch bach!"

Wrth reswm, mae'r sefydliadau mwy hyn yn cael effaith enfawr ar y sector yn ei gyfanrwydd, fel y pwysleisiodd Judith Knight , Artsadmin, mewn cynhadledd Eginiaid yn ddiweddar "Mae'n bwysig iawn bod cyrff mawr yn cymryd yr awenau. Mae sefydliadau llai amlwg yn cael llai o ddylanwad ... mae angen i sefydliadau mwy i rannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth a gwahodd rhai llai i ymuno a hwynt "(Knight, 2010).



Hands fragment, Fern Thomas

Er y gall cynaliadwyedd fod yn egwyddor gweithredu craidd ar gyfer y bobl hyn, nid yw eu hegwyddorion yn cael eu hadlewyrchu o reidrwydd mewn polisiâu ffurfiol. Mae gan lai na hanner yr ymatebwyr bolisi amgylcheddol, chwarter ohonynt bolisi cynaliadwyedd a dim ond tri o'r ymatebwyr sydd wedi ymuno â Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, (dau ohonynt yn RFOs CCC). Nid yw polisiâu ar ben eu hunain o reidrwydd yn creu newid ymddygiad ond mae ganddynt rôl bwysig o ran cefnogi neu ganlyn newid mewn sector neu gymdeithas trwy ddangos datganiad o fwiad. Y perygl yw bod ymrwymiad i gynaliadwyedd yn rhan annatod o bolisi cwmni ond ddim yn cael ei wireddu. Hefyd, mae ein canlyniadau yn dangos bod llawer o'n cychwynwyr yn unigolion neu gydweithfeydd rhydd heb gyfansoddiadau ffurfiol, cynlluniau busnes na ddatganiadau bwriad ffurfiol.

" Yn aml, mae'n ymddangos bod y rhwydweithiau cymdeithasol a'r cyfryngau diwylliannol a chelfyddydol sydd yn siarad Cymraeg yn gwbl anweledig i'r unigolion a'r grwpiau sydd ddim yn siarad yr iaith ... Yn ogystal, gellid dadlau bod siaradwyr Cymraeg a'u grwpiau celfyddydol hefyd i raddau helaeth yn anweledig i sefydliad asiantaethau wladwriaeth." *Gareth Ioan, 2004*

Mae llawer o'r rhai sy'n achosi newid, fodd bynnag, yn dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd trwy eu dewis o gydweithwyr, comisiynau maent yn derbyn, prosesau maent yn defnyddio, gweithio neu hyd yn oed teitlau maent yn defnyddio. (er enghraifft, yr eco-bardd Susan Richardson). Un o'n hargymhellion ar

ddiwedd yr adroddiad hwn yw bod angen polisi ac ymarfer i fynd law yn llaw, boed wedi'u ffurfioli mewn dogfennau cwmni neu yn natganiadau ysgrifenedig neu anysgrifenedig yr artistiaid eu hunain.

Mae, wrth gwrs rhwystrau i newid - mae tua hanner yr ymatebwyr yn nodi taw'r pryderon neu'r rhwystrau mwyaf difrifol yw diffyg amser, diffyg arian ar gyfer y prosiectau hyn, a'r pryder bod celfyddydau cynaliadwy yn gysyniad anodd i gyllidwyr neu noddwyr i ddeall neu werthu. Nodir cyrraedd y cyllid fel rhwystr, ond, yn ôl yr ymatebwyr, nid dim ond arian sydd yn brin yn y maes hwn. Mae mwy o ymwybyddiaeth o'r math hwn o waith, ei effaith a'i gynulleidfa bosibl, hefyd yn hanfodol. Mae'r ffyrdd y gall CCC gefnogi prosiectau yn cael ei nodi yn nes ymlaen yn y ddogfen.

Mae'r nifer fach o ymatebwyr yn y Gymraeg yn ei gwneud yn anodd gwneud honiadau penodol am brosiectau celfyddydol cynaliadwy yn yr iaith Gymraeg, ond mae'r ffaith mai dim ond 4 ymateb oedd yn Gymraeg yn ei hun yn arwyddocaol ac yn codi cwestiynau pwysig: A oes llai o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y sector hwn? Er ein bod wedi ymdrechu i gysylltu ag artistiaid Cymraeg eu hiaith, a ydynt yn llai hysbys i'r tîm (o ystyried bod hyn yn arolwg wedi'i dargedu), yw eu rhwydweithiau yn wahanol? A oes gan siaradwyr Cymraeg wahanol ddiffiniadau a pherthynas gyda chynaliadwyedd na'r hyn a gynigir yn yr arolwg? Er ein bod yn cyffwrdd ar rain yn ddiweddarach yn yr adroddiad, maent yn gwestiynau sydd angen eu harchwilio ymhellach.



Canolfan Mileniwm Cymru, Phil Boorman

Ar y cyfan, dim ond lleiafrif bach o ymatebwyr oedd yn teimlo fod cyfathrebu cynaliadwyedd a thrafodaethau yng Nghymru yn adlewyrchu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn ddigonol. Gellid awgrymu

bod yr arolwg yn cefnogi'r farn a fynegwyd gan Gareth Ioan, oherwydd dywedodd 2 o'r 4 ymatebydd Cymraeg fod unigrwydd a diffyg rhwydwaith celfyddydol yn llid mawr neu yn bryder difrifol yn eu hymdrechion i greu gwaith sy'n cynnal egwyddorion datblygu cynaliadwy. Os am weld newid sylweddol yn digwydd yng Nghymru, mae'n hanfodol cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg.

Mae deialog effeithiol yn rhan annatod o unrhyw ddiffiniad gweithredol o gynaliadwyedd, fel mae amrywiaeth ac ymrwymiad i rwydweithiau a chymunedau lleol gwydn. Mae angen i'r weledigaeth o Gymru gynaliadwy i ddod â phawb i mewn i'r sgwrs ar sail gyfartal. Rydym yn gwneud yr argymhelliad y byddai'n faes ffrwythlon ar gyfer ymchwil pellach i asesu os yw artistiaid sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn gweithredu gyda gwahanol dermau ac arferion mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, a sut y gallai hyn gyfrannu at arferion cynaliadwy ar draws y wlad yn y dyfodol.

Celfyddydau Cynaliadwy - Themâu Cyffredin

Lle i Deialog

Mae creu lle ar gyfer deialog yn agwedd allweddol o nifer o'r prosiectau a nodwyd yn yr ymchwil. Dywedodd naw deg pedwar y cant o'r ymatebwyr y gall y celfyddydau gefnogi symudiad diwylliannol tuag at ddyfodol cynaliadwy drwy greu 'mannau ar gyfer deialog'. Ond pan fydd ymatebwyr yn siarad am le, nid yw o reidrwydd yn 'ofod celfyddydol' neu leoliad sydd eisoes yn bodoli. Dywedodd chwe deg dau y cant fod eu prosiectau yn cael eu cynnal mewn llefydd sy'n safle-benodol / nad yw'n seiliedig mewn adeilad. Y pwynt allweddol a wneir yma yw'r angen i gael mynediad at ofod creadigol, diogel lle mae pobl yn cael 'caniatâd' i siarad, i archwilio eu syniadau a chysylltu â phobl eraill. Mae'r gofod lle mae'r ddeialog yn cael ei berfformio, a lle mae trawsnewid yn digwydd, yn cael ei ystyried gan lawer fel ffurf ar gelfyddyd yn ei hun. Y gelfyddyd yw'r broses, y cyfnewid, y datblygiad o syniadau. Mae ganddo esthetig berthynol. Yn ein hargymhellion ar ddiwedd yr adroddiad hwn, rydym yn awgrymu bod angen i'r esthetig hwn gael ei gydnabod a'i gefnogi.

"Mae'n bryd i Gyngor Celfyddydau Cymru ystyried estheteg berthynol fel mesurydd o ansawdd, ac yn deall pŵer gweithiau celf sy'n ceisio cysylltu, ac yn annog deialog fel eu prif gyfrwng."
Jess Allen

"Nid rôl sefydliadau a chyrrff ariannu yw 'arwain y ffordd', ond i gefnogi pobl i 'ddarganfod y ffordd'.
Sian Cornelius, Dreamscape

Mae'r mathau hyn o brosiectau yn cael eu cynnal gan artistiaid a sefydliadau mewn amrywiaeth o genres, a ffurfiau traws-gelfyddydol, yn ogystal â chydweithio rhwng gwyddonwyr ac artistiaid. Mae'r sbectrwm o fannau mae artistiaid yn eu cerfio allan ar gyfer deialog yn enfawr. Maent yn amrywio o eco-leoliadau penodol fel Small World Theatre ac Ysgubor Ty'n yr Helyg Tom Payne lle maent yn hybu deialog ar faterion

cynaliadwyedd a'r cyfrifoldeb i weithredu fel dinasyddion byd-eang; i fannau diderfyn, er enghraifft artist symudiadau Jess Allen a thaith crwydro a siarad Emily Hinshelwood lle sgwrsiodd â phobl am gynaliadwyedd mewn tirweddau gwledig fel ymarfer celfyddydol; i fannau rhithwir fel gwefan 'I know a story' Mike Erskine sy'n hyrwyddo straeon am effaith pobl greadigol ar gynaliadwyedd.

Galluogodd prosiect 'Nature into Art' y cerflunydd Sara Holden i archwilio materion amgylcheddol drwy wneud cerfluniau ar draethau a gwarchodfeydd natur. Denodd Y Siwrnai Eginiad Tir artistiaid at ei gilydd ar daith gerdded 5-diwrnod i gyfnewid syniadau ar y celfyddydau a chynaliadwyedd trwy gysylltiad dyddiol uniongyrchol â'r dirwedd. Holodd berfformiad cymunedol Awel Aman Tawe 'We're Oil In It Together' y gynulleidfa ar sut i wneud drama am gynaliadwyedd heb elyniaethu pobl.

Tom Payne

Ym mis Mawrth 2010, dilynodd Tom Payne blwyddyn lansiad Theatr Genedlaethol Cymru fel ymchwilydd, arsyllwr ymarfer a gwneuthurwr perfformiadau.

"Wrth geisio mapio'r genedl drwy'r hyn y deallaf i fod i radd helaeth yn arferion perfformiad perthynol neu gyfranogol, mae TGC wedi hwyluso cysylltiadau rhwng pob math o artistiaid, gwylwyr, sefydliadau, lleoedd, a phethau. O ran cynaladwyedd y sector theatr yng Nghymru, mae prosiect blwyddyn lansiad TGC wedi creu gofod ffrwythlon lle y gallai artistiaid a chwmnïau sy'n dod i'r amlwg ddysgu oddi wrth ymarferwyr theatr yng Nghymru sydd eisoes yn bodoli ac artistiaid rhyngwladol eraill.

Mae pwyslais TGC ar sgwrs a deialog - sy'n amlwg nid yn unig trwy berfformiad, ond hefyd drwy TEAM TGC a Chynulliad Theatr Cenedlaethol Cymru a'i chymuned ar-lein - yn arwydd o allu dosbarthiadau celfyddydol ymddiddanol i hwyluso trafodaeth a materion heriol, ac efallai am y rheswm hwn, mae'r rhain ac arferion cysylltiedig yn arbennig o addas ar gyfer ymgysylltu â materion lleol, a byd-eang. pwysig sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd."

community.nationaltheatrewales.org;
nationaltheatrewales.org/assembly

Bohm a hefyd Senge, Scharme, Jaworski a Flowers (2005) yn sôn am bwysigrwydd 'atal' ein patrymau, barn a rhagdybiaethau yn gyson. Dyma'r cam cyntaf hanfodol mewn newid ymddygiad ac agwedd - mae'n aml yn teimlo fel 'rhoi'r gorau' neu 'yn cael ein dal allan'. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn teimlo'n annifyr, ond ein hymateb at yr aflonyddwch yma sy'n arwain at ddysgu ac ystywthder newydd - dyna pam bod yna angen am ddeialog sydd wedi'i guradu neu ei hybu.

Mae'r broses o groesawu ansicrwydd yn hen nodwedd o ffurfiau creadigol: mae cydweithio, byrffyr a chwarae yn fathau o weithredu creadigol sy'n annog cynhyrchu syniadau, dysgu a dulliau newydd i'r hyn sy'n arferol neu yn gyfarwydd. Mae byrffyr yn annog torri arferion ac felly gallant fod yn arf creadigol defnyddiol i annog newidiadau canfyddiadol a dulliau eraill o ymchwil, er enghraifft pan mae Jess Allen yn dawnsio yn y dirwedd.

Nid safle'r gofod sy'n bwysig. Yr hyn sy'n bwysig, a beth sy'n gyffredin i'r prosiectau a fapiwyd yn yr adroddiad hwn, yw beth sy'n digwydd yn y gofod. Mae Datblygu Cynaliadwy yn llawn argon, Gwyddor yr Amgylchedd yn drwch o ffeithiau a ffigurau, y cyfryngau a gwleidyddion yn rhy aml yn cyflwyno safbwyntiau rhagfarnllyd. Drwy agor gofod creadigol ar gyfer deialog, mae'r celfyddydau yn galluogi pobl i ystyried cwestiynau allweddol drwy archwilio eu dealltwriaeth bersonol eu hunain ohonynt. Wedi'i weinyddu yn effeithiol, mae pobl yn gallu cydnabod ansicrwydd; gallant fod yn ddrwslyd am gyfnod.

Fel y soniodd Margaret Wheatley (2009) "mae newid wastad yn dechrau gyda drysni...wrth gwrs ei fod yn beth newydd i roi'r gorau i'r oll a wyddwn, ond mae'r newydd-deb yn byw yn yr affwys".

Mae deialog yn caniatáu llif o ystyr. O fewn grŵp o bobl, gall y llif hwn esblygu i ddealltwriaeth newydd - ystyr newydd a rennir - sy'n dod yn fath o lud neu sment sy'n dal pobl at ei gilydd (David Bohm). Mae

'Mae'n anodd iawn i roi'r gorau i ansicrwydd - ein swyddi, ein credoau, ein hesboniadau. Mae'r rhain yn helpu i ein diffinio; maent yn gorwedd wrth wraidd ein hunaniaeth bersonol. Ac eto yr wyf yn credu y byddwn yn llwyddo i newid y byd hwn dim ond os gallwn feddwl a gweithio gyda'n gilydd mewn ffyrdd newydd.'

Margaret Wheatley, 2009

Fel gyda byrfyfyfyr, cydweithio a chwarae, ni all deialog gael ei or-gynllunio. Gallwn osod amodau, ond ni allwn, na chwaith ddylwn, benderfynu ymlaen llaw ar y canlyniad, gan mae natur y ffurf yw cynhyrchu syniadau a ffyrdd newydd, sy'n codi o'r amodau penodol ac unigryw'r sefyllfa. Dyma efallai pam bod ffurfiau byrfyfyfyr a chydweithredol mor ffafriol i arferion celfyddydol lle mae rhannu a sgwrs wrth wraidd bwriad yr artistiaid.

Mae yna sefydliadau celfyddydol cyfrwng Cymraeg, sy'n hysbys ac a ariennir yn ganolog (e.e. Theatr Genedlaethol, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol), ond fel y sonia Gareth Ioan, mae diwylliant Cymraeg yn medru bod yn "anweladwy" i bobl ddi-Gymraeg ac yn anodd i system fonitro ffurfiol ei fesur a'i recordio.

"Mae amrywiaeth ieithyddol a bioamrywiaeth yn elfennau cyd-ddibynnol. Mae'r bygythiadau i'r ddau'r un fath. A'r ateb yr un fath: rhoi grym i bobl leol."
Nettle & Romaine, Vanishing Voices

Yn aml, mae gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol Cymraeg yn bodoli mewn cyd-destun lleol a chymdeithasol fel y Clwb Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Côrau Lleol, Menter Iaith ac wrth gwrs Eisteddfodau bro. Mae agwedd leol y gweithgareddau celfyddydol hyn yn treiddio'n ddwfn i graidd diwylliant Cymraeg a Chymreig. Amlyga'r iaith Gymraeg ei hun, bwysigrwydd y lleol a'r penodol yn niwylliant Cymru wrth ystyried gymaint mae tafodiaith yn amrywio rhwng bröydd cyfagos ac mor arwyddocaol yw'r amrywiaethau hyn i wybodaeth a hunaniaeth leol. Mae gan raglennu Cyngor y Celfyddydau megis "Cymru Greadigol" y potensial i gefnogi gwaith cyfrwng Cymraeg am fod rhaglennu o'r fath yn galluogi artistiaid i fyw a gweithio yn eu cymunedau ac ymhle caiff y Gymraeg, ac o bosibl eu tafodiaith arbenning nhw, ei siarad.

Gellid dysgu llawer gan draddodiad diwylliannol Cymru yng nghyd-destun y drafodaeth "datblygu cynaliadwy a'r celfyddydau". Gwelir hyn yn enwedig wrth ystyried arferion celfyddydol yn y gymuned: ble

daw'r mynegiant celfyddydol o'r bobl eu hunain ac mewn modd sy'n dod âg aelodau gwahanol o'r gymuned ynghyd, er enghraifft y traddodiad hynafol o'r Fari Lwyd. rth wraidd traddodiad diwyllianol Cymru mae ymdeimlad o berthyn yn bodoli, ac ystyr penodol "cymuned" a hydwythedd y gymuned honno. Fel yr ysgrifenna Euros Lewis, daw'r gair "Cymru" o'r hen Frythoneg "Combroges" sef y rhai sydd yn rhannu bro. "Mae'r iaith ei hunain yn dweud wrthym mai casgliad o fröydd yw Cymru; lle y mae pobl yn perthyn i'w gilydd, ac yn cynnal cyfrifoldebau perthyn yw hi." Dywed Euros hefyd mai "anaml mae diwylliant Cymraeg yn mynegi ei hun yn bensaernïol"; golyga hyn nad yw'r diwylliant yn gaeth i adeiladau penodol fel Canolfannau Celfyddydau neu ofod sydd wedi'i fwriadu yn benodol ar gyfer y celfyddydau. Yn hytrach, mae gweithgareddau ddiwyllianol Cymraeg, yn aml, yn bodoli mewn gofodau cymunedol a chyhoeddus. Mae'r arfer hwn yn meithrin a chefnogi ymwybyddiaeth o'n hymberthynas â'n bro/tir/gwlad mewn modd nad sy'n digwydd o fewn adeilad traddodiadol. Gellid dadlau bod yr arfer diwyllianol hwn yn ennyn y traddodiad gref o waith Cymraeg safle arbennig (site specific) yng Nghymru. Mynega gwaith y cwmni theatr arbrofol Brith Gof y traddodiad hwn yn glir, yn ogystal â nifer o artistiaid cyfoes.

Mae Eddie Ladd yn gyn-aelod o Brith Gof ac yn artist dawns sydd wedi creu perfformiadau yn yr iaith Gymraeg yng Nghymru ac yn rhyngwladol am dros 30 mlynedd. Yn aml iawn mae'n dewis safle penodol neu hanesyddol neu bwnc gwleidyddol i'w hymchwilio ac yna ei chyflwyno trwy berfformiad. Mae gwaith Eddie yn ymgorffori profiad a hanes safleoedd penodol. Mae ei gwaith yn cryfhau ein hymwybyddiaeth o'n perthynas â thir ac arwyddocâd defnydd y tir hwn (er enghraifft yn "Gaza / Blaenannerch" 2012), ymwybyddiaeth sy'n hanfodol wrth ystyried dyfodol cynaliadwy yng Nghymru.

Yn y cyfweiliad sy'n cyd-fynd gyda'r adroddiad hwn, mae Euros Lewis yn disgrifio'r posibilrwydd o strwythurau llai hierarchaidd oddi mewn i gyd-destunau celfyddydau Cymraeg oherwydd bod y Gymraeg fel iaith leiafrifol yn gallu mynegi safbwyntiau amgen i'r "status quo" nag y gall ieithoedd cryfach eu gwneud. Mae Euros yn disgrifio arfer Theatr Troed-y-Rhiw sydd â llawer llai o'r strwythur gonfensiynol o'r 'artist' yn cyflwyno gwaith i'r 'derbynwyr'. Mae gan yr arfer yma fwy yn gyffredin gyda'r symudiad tuag at gelfyddyd mwy perthynol a amlygir yn yr adroddiad hwn. Fel y mae Ariana Jordao yn pwysleisio, mae 'celfyddyd wedi'i wneud i gymuned yn wahanol i gelfyddyd sy'n symud drwyddi'. Lle mae celfyddyd wedi'i wreiddio mewn diwylliant mae yna botensial i gelfyddyd fod yn rhywbeth y mae gan gymuned *fynediad* iddo a hefyd yn rhywbeth y gall cymuned gyfranogi ynddo neu hyd yn oed *ei gychwyn*.



Mae'r profiad hwn mewn cyd-destun Cymreig yn atseinio gyda phrofiad rhyngwladol ehangach y berthynas rhwng y celfyddydau a'r gymuned. Mae Ananda Coomeraswamy (Hinduism & Buddhism, 1959) yn dweud "the artist is not a special kind of person, but every person is a special kind of artist." Fel enghraifft o hyn, yn y traddodiad Indiaidd dydy celfyddyd a bywyd *ddim wedi'u* gwahanu. Mae Cyfarwyddwr Coleg Schumacher, Satish Kumar, yn pwysleisio bod y gwahanu yma yn un o ganlyniadau dull mecanyddol, deuolaidd o weithredu yn hytrach na dull holistaidd o weithredu. Un o'i argymhellion

ydy darganfod ffyrdd o ddwyn celfyddyd a bywyd beunyddiol at ei gilydd. Mae'n credu bod hyn yn ein galluogi i drwsio'r rhaniad y mae diwydianeiddio wedi'i greu mewn cymdeithas.

Dydy hyn ddim yn golygu nad oes lle i'r artist proffesiynol. Yn hytrach, mae'r adroddiad hwn yn amlygu rôl sylfaenol yr artist fel un sy'n creu newid, a chydabyddiaeth gynyddol bod angen i'r artist ail gysylltu *gyda'r* gymdeithas, fel y gwelwn sydd eisoes yn bodoli yn y traddodiad diwylliannol Cymraeg.

“Oherwydd daeth celfyddyd yn hunanfoddhaol tu hwnt, yn yr ystyr ' rydw i yn creu celf, mae'n dod oddi wrthyf', tra yn India, daw celfyddyd o'r gymuned. Nid o'r unigolyn hunanfoddhaol daeth celfyddyd Indiaidd traddodiadol. Rydym wedi talu'r pris ar gyfer y darnau pwysig yma o gelfyddyd. Ac o ganlyniad, rydym yn byw mewn byd hyll, oherwydd yr ydym wedi rhoi'r holl gelfyddyd 'ma mewn un gornel fach, mewn ystafell, neu mewn ysgolion celfyddyd, ble rydych yn mynd i ddysgu sut i fod yn arlunydd. Ac yna, allan o ddeg mil o fyfyrwyr sy'n mynd i ysgol gelfyddyd, efallai daw deg ohonynt yn feistri. Gwastraff egni ac arian ac amser! Yn India, rydym am i bob un o'r deg mil - pob un ohonynt - i fod yn artistiaid, ac felly, nid oes 'mond un meistr. Yn India, rydym am i bob un o'r deg mil - pob un ohonynt - i fod yn artistiaid, ac felly, nid oes 'mond un meistr. Dyna'r gost.

Satish Kumar.

Mae'r ymateb i'r arolwg yn adlewyrchu'r tueddiad i artistiaid Cymraeg a di Gymraeg symud a gweithio mewn gwahanol rwydweithiau – yn ôl cyd-destunau diwylliannol yn ogystal â chyfleoedd, adnoddau a chyllido. Ond fel yr awgrymwyd yn *Vanishing Voices*, "mae'r broblem o ddatblygu cynaliadwy yn fwy tebygol o gael ei datrys pe bai systemau cynhenid o wybodaeth ac ieithoedd yn cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio." Mae'r iaith Gymraeg felly yn berthnasol i bawb sydd yn byw yng Nghymru, nid yn unig i siaradwyr Cymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod angen mwy nag erioed, i ni greu cyfleoedd i ddysgu a rhannu ar draws ieithoedd a diwylliannau.

Wrth gwrs, mae hyn eisoes yn digwydd. Dywed Menna Elfyn, bardd a dramodydd llwyddiannus, yn "Symud yr Agenda" bod "newid wedi digwydd yng Nghymru, yn enwedig mewn barddoniaeth. Ym 1986, ymwelodd Fel yr Hed y Frân, grŵp anarchaidd, â thafarndai ac ysgolion mewn ymdrech i symud barddoniaeth oddi wrth gyfyngiadau diogel a chul cystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol." Mae'n sôn am sut y gall materion cymdeithasol ddwyn artistiaid sy'n gweithio yn Gymraeg a Saesneg at ei gilydd, fel cyhoeddi casgliad dwyieithog o gerddi protest gwrth apartheid yn yr 1980au. Mae cwmnïau theatr fel Sherman Cymru yn cynhyrchu dramâu Cymraeg gydag is-deitlau Saesneg a sgysiau ar gyfer dysgwyr Cymraeg.

Creu Cymru Emergence

Mae Creu Cymru Eginiaid yn gweithio gyda deunaw theatr a chanolfan celfyddydol ledled Cymru i ystyried y sialensiau a'r cyfleoedd o wneud cynaliadwyedd yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a gweithio. Eu nod yw deall yn well y rhwystrau i newid ymddygiad, ac i nodi'r ymyriadau mwyaf effeithiol y gellir eu gwneud i gefnogi datblygu cynaliadwy yn y sector.

" Dylai cynaliadwyedd fod yn rhan annatod o ddatblygu sefydliadol yn hytrach na blwch arall i'w ticio er mwyn cael cyllid neu flaenoriaeth wleidyddol. Mae angen i ni hyrwyddo gwir ystyr cynaliadwyedd, a galluogi unigolion a sefydliadau taw nid dim ond lleihau allyriadau carbon sy'n bwysig, ond hefyd ymwneud a dyraniad mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau, rhyngweithio ystyrion gyda chymunedau, syniadau a dyheadau a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n ymwneud a'r gymdeithas hoffem fod, mae'n ymwneud ag arwain y drafodaeth. I mi, mae cynaliadwyedd yn ymwneud â pha fath o fyd yr ydym am fyw ynnddi, ac mae gan theatrau a chanolfannau celfyddydau potensial enfawr i fod yn gatalyddion ar gyfer y newid hwn. " (Emma Evans, Creu Cymru Emergence Coordinator)

www.emergence-uk.org/projects/creu-cymru-emergence/#the-project
www.creucymru.com

Gwelir fod gweithgareddau diwylliannol Cymraeg yn dod yn fwy hygyrch i ddysgwyr Cymraeg a sefydlwyd Eisteddfod i Ddysgwyr Cymraeg yn ddiweddar. Cyhoeddir gasgliadau barddoniaeth dwyieithog, fel casgliad Menna Elfyn *Cusan Dyn Dall/Blind Man's Kiss*, ac ceir brosiectau fel Awel Aman Tawe sy'n cynnal cystadlaethau a digwyddiadau celfyddydau a newid hinsawdd dwyieithog. Ond mae'r adroddiad hwn yn datgan bod angen gwneud mwy i gysylltu artistiaid a chymunedau trwy gyfrwng y ddwy iaith.

Mae mwyafrif yr ymatebwyr i'n harolwg yn teimlo bod "statws a chryfder y Gymraeg yn hanfodol i unrhyw ddiffiniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru." Siarada Eluned Haf, Cyfarwyddwraig Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, yn angerddol am rôl cydnerthu ac addasu mewn diwylliant lleiafrifol. "Cydnerthu" ydy'r gallu i newid, ymateb ac elwa oddi wrth newid; Mae gennym ni yn y celfyddydau ddyletswydd bellach i ddefnyddio'r cyfle hwn i annog trafodaethau er mwyn herio, nid yn unig y rhai oddi mewn i'n celfyddydau a'n diwylliant ein hunain i gymryd rhan ond hefyd y gymdeithas ehangach." [Eginio: Celfyddau, Diwylliant a'r Amgylchedd"]

Os ydym am ddychmygu, heb sôn am greu Cymru gynaliadwy, rhaid i'r trafodaethau hyn bontio'r ddwy iaith. Mae'r dreftadaeth ieithyddol Gymraeg o 'gyfrifoldebau perthyn' sy'n bwydo i mewn i'r traddodiad celfyddydol Cymraeg yn cynnig meysydd archwilio clir inni wrth inni symud ymlaen i ddatblygu rôl y celfyddydau mewn cynaliadwyedd yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn argymhell bod angen rhagor o ymchwil, digwyddiadau a gweithgareddau i archwilio ac ymgysylltu gyda syniadau 'cynaliadwyedd' oddi mewn i gyd-destun diwylliannol penodol Cymru. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn dadlau'n gryf bod yr iaith Gymraeg yn hanfodol er mwyn cyrchu cyd-destun diwylliannol penodol Cymru a dylai fod yn rhan annatod o'r broses ac o'r ddadl ynghylch datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Rhwystrau a Heriau

Yn ôl yr ymatebwyr, y rhwystrau mwyaf arwyddocaol wrth gyflawni prosiectau celfyddydol cynaliadwy ydy ariannu ac amser. Rhwystrau a heriau i raddfa lai oedd diffyg gwybodaeth, sgiliau, offer a rhwydweithiau, ym meysydd y celfyddydau a chynaliadwyedd.

Dywedodd 41% fod diffyg cyllid yn fater o bwys, gyda chwe achos yn nodi ei fod yn rhwystr llwyr. Awgrymir gan 36% fod y cysyniad o 'gelf a chynaliadwyedd' yn un anodd i arianwyr, comisiynwyr a noddwyr eu deall. Dywedodd dros 67% o'r ymatebwyr eu bod yn cynnal eu prosiectau celfyddydol a cynaliadwyol naill ai drwy'r 'economi rhad ac am ddim' (rhannu, ffeirio, cyfnawid), drwy gadw'r costau i sero neu'r mymryn lleiaf, neu gymorthdalw drwy swydd arall sy'n talu. Er nad yw hyn o reidrwydd yn rhwystr i weithio, mae'r her o gael ychydig neu ddim incwm, neu i weithio dwy swydd, un di-dâl ac un sy'n talu, yn arwain at ansicrwydd, straen a sefyllfa fregus. O ganlyniad i'r sefyllfa ariannu, dywedodd 42% fod diffyg amser yn bryder difrifol.

Mae'n ymddangos bod llawer o'r prosiectau hyn yn syrthio drwy'r rhwyd ariannu'r celfyddydau yng Nghymru o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn ymddangos yn wahanol i brosiect celfyddydol 'traddodiadol'. Mynegodd rhai siom y gallant gael cyllid yn Lloegr ond nid yng Nghymru. Dywedodd un ymatebydd, sy'n cael ei ystyried fel arweinydd yn ei maes yn Lloegr, lle mae'n cael cynnig sawl comisiwn a gwaith, ei bod wedi cael ei throï i lawr ar gyfer hyd yn oed symiau bach o arian cyfatebol gan y CCC i wneud gwaith yn ei chynffwrdd yng Nghymru. Dywedodd ymatebydd arall ei bod hi'n ei chael yn anodd perswadio swyddogion prosiect ei bod yn gweithio mewn arddull celf dilys, ac o ganlyniad wedi mynd at ffynonellau academaidd i ariannu'r prosiect, sef yr unig ffordd y mae hi wedi llwyddo i barhau i weithio yng Nghymru, er mae nid hyn yw'r llwybr delfrydol iddi.

Head4Arts

Mae Head4Arts yn gwmni comisiynu creadigol sy'n arbenigo mewn celfyddydau cymunedol, sy'n gweithredu mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol o fwrdeistrefi sirol Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful a Thorfaen. Mae Head4Arts yn defnyddio ymgysylltu â'r celfyddydau fel hwylysydd ar gyfer hyrwyddo adfywio ac ysgogi creadigrwydd.

"Head4Arts yn rhoi pwyslais cryf ar ailddefnyddio deunyddiau a helpu pobl i ddysgu sgiliau crefft sy'n annog ail-addasu neu drwsio yn hytrach na amnewid nwyddau neu greu'r galw am eitemau newydd sbon, sy'n gwastraffu adnoddau. Mae cyfranogwyr yn cael eu hannog i weld deunyddiau wedi'u hailgylchu fel adnoddau ysbrydoledig a gwerthfawr, ac mae pwyslais ar rannu sgiliau. Un enghraifft oedd y prosiect tecstilau "Made in Hand" yng Nghwm, oedd yn targedu menywod di-waith heb sgiliau gwnïo. Arweiniodd hyn at greu croglun mawr i ddathlu creadigrwydd, oedd yn gysylltiedig â digwyddiad Olympaidd Diwylliannol Adain Avion yng Nglyn Ebwy yn 2012. Mae prosiectau crefft sy'n defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu yn datblygu'n aml mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd, fel rhan o'r mesurau i fynd i'r afael â thlodi - mae'r sgiliau trosglwyddadwy yn creu llwybrau posibl i mewn i wirfoddoli, mentrau cymdeithasol a chyflogaeth." (Kate Strudwick)

www.head4arts.org.uk

Rhwyrstr arall i'r ymatebwyr wrth wneud cais i'r Cyngor y Celfyddydau ar gyfer prosiectau cynaliadwyedd a celfyddydol ydy'r disgwiliad o 'gynnyrch' yn hytrach na phroses a thaith. Fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, mae llawer o'r gwaith yn y maes hwn yn seiliedig ar broses yn hytrach na chynnyrch. Mae'r effaith mae'r math hwn o brosiect yn ei gael yn anodd i'w fesur a'i werthuso o fewn gweithdrefn adroddiadau presennol y CCC, ac mae nifer wedi awgrymu bod swyddogion yn llai parod i gefnogi prosiectau na ellir eu monitro o fewn ffurf safonol.

Un agwedd allweddol o gynaliadwyedd ydy rhoi gwerth ar bwysigrwydd y lleol, y brodorol, yn hytrach nag dod ag arbenigwyr i mewn. Mae artistiaid sydd a'i gwaith wedi ei selio ar gynaliadwyedd ac sy'n cael ei ddarparu trwy ddulliau cynaliadwy yn teimlo eu bod nhw'n cael ei hanwybyddu pan ddaw i gomisiynau prosiectau am gynaliadwyedd. Mae artistiaid sefydledig yn aml yn cael y comisiynau oherwydd y ffaith eu bod yn adnabyddus, ac o ganlyniad maent yn cael ei ystyried fel symbol o gynaliadwyedd heb orfod dangos unrhyw rinweddau cynaliadwy. Ar ben hynny, mae rhai artistiaid mewn ardaloedd gwledig yn teimlo ar y cyrion, fel petai eu gwaith yn ddibwys oherwydd bod y boblogaeth leol ar wasgar. Dywedodd artistiaid sy'n gweithio mewn celfyddydau cymunedol eu bod yn teimlo'r un peth - bod eu gwaith gyda phobl leol yn cael ei ystyried yn llai 'difrifol'. Ac eto, mae prosiectau cymunedol celfyddydol fel NTW, The Passion, digwyddiadau diddorol sy'n ysbrydoli ac sy'n aros yn y cof, yn profi bod celfyddydau cymunedol yn ffurf bwerus.



Hole to be in Finland, Ariana Joradao

Fel y dengys yr adroddiad hwn, mae llawer iawn o brosiectau yn y maes yn berthynol, gyfranogol - maent yn cynnwys pobl: pobl sy'n profi 'aflonyddwch' yn eu bywydau, pobl sy'n gwrthod gwranddo ar y gwir, mewn dryswch, pobl sy'n chwilio am atebion, pobl sydd â barn gref a phobl sydd ddim yn gwybod sut i fynegi eu barn. Mae pob person yn ymateb yn wahanol i'r materion cyfredol sy'n eu hwynebu. Mae'r dasg o gamu i mewn i'r gofod yn dasg anodd i unrhyw artist. Maent yn wynebu amryw o emosiynau: ofn, colled, dicter ac euogrwydd ymhlith eraill. Yn ogystal i'w rôl fel artist, rheolwr cyhoeddusrwydd, swyddog prosiect, ysgrifennwr adroddiadau ac yn y blaen, maent hefyd yn aml yn iachawr, 'arbenigwr' cynaliadwyedd, ymchwilydd, a dogfennwr.

Mae hyn yn arwyddocaol. Mae sefydliadau bach neu artistiaid unigol sy'n gweithio ar friwsion neu brosiectau heb ei hariannu, gydag ychydig iawn o gefnogaeth, neu rwydweithiau cefnogi, mewn maes sydd yn 'tabŵ' yn agored i ludded. Mae eu penderfyniad i weithio ar draws dwy sector lle nad oes llawer o arian na chwaith fawr o barch cyhoeddus yn arwydd o'u hymrwymiad i'r maes. Yr hyn sydd angen ar yr artistiaid yma yw cymorth.



We're Cutting our Carbons, Awel Aman Tawe

Goblygiadau ac Argymhellion

Mae'n hanfodol cydnabod y nifer fawr o artistiaid a phrosiectau celfyddydol cynaliadwy ledled Cymru (gweler yr atodiad am rhestr brosiectau rydym yn ymwybodol ohonynt). Dylid dathlu hyn. Ond fel dywed Gablik, "I ble awn ni o fan hyn a sut?" Sut mae cynnal a thyfu'r gymuned hon?

Argymhellir bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn:

- Cydnabod y rôl y mae'r celfyddydau yn ei chwarae o fewn y newid diwylliannol sy'n digwydd yng Nghymru a thu hwnt;
- Ehangu'r ffrâm ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru;
- Nodi a chefnogi'r gwaith o ddarparu prosiectau celfyddydol cynaliadwy yng Nghymru.

Cydnabod y rôl y mae'r celfyddydau yn ei chwarae o fewn y newid diwylliannol sy'n digwydd yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi nifer cynyddol o artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru sy'n ystyried bod cynaliadwyedd yn rhan allweddol o'u gwaith. Mae artistiaid o bob maes yn addasu eu harferion gweithio. Mae llif pendant tuag at fod yn fwy cynaliadwy, a mwy o ystyriaeth o gynaliadwyedd, ond yr hyn sydd wedi dod yn glir yn yr ymchwil yw bod arferion celfyddydol cynaliadwy yn dangos pwyslais clir ar y celfyddydau perthynol, y celfyddydau trawsnewidiol a'r celfyddydau sy'n cael eu gwreiddio yn y gymuned. Mae yna dystiolaeth sylweddol i awgrymu bod gan y celfyddydau rôl hanfodol mewn - a chyfrifoldeb i - newid diwylliannol sydd yn digwydd ym Mhrydain ar hyn o bryd. Mae gan artistiaid y gallu i wneud rhywbeth na all unrhyw ddisgyblaeth arall gyflawni. Trwy'r celfyddydau, gallant greu gofod ar gyfer deialog, gallant helpu cyfathrebu syniadau cymhleth, gallant gefnogi pobl i ddechymygu dyfodol cadarnhaol. Mae'r celfyddydau yn rhoi caniatâd i bobl fod yn ddryslyd ac yn ansicr, yn ogystal â rhoi llais i syniadau newydd sy'n dod i'r amlwg. Mae sawl artist yn barod am yr her.

Ar y llaw arall ar lefel Llywodraeth y DU, mae bwlch polisi arwyddocaol yn dod i'r amlwg lle mae'r celfyddydau yn cael eu neilltuo wrth i bolisiâu datblygu cynaliadwy cael eu llunio. Ar gyfer Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, cynaliadwyedd yw'r 'brif egwyddor drefniadol' a bydd Bil Dyfodol Cynaliadwy ar waith yn 2015. Mae yna, felly, lle sylweddol i Gyngor Celfyddydau Cymru ymateb i'r mudiad artistig hyn; ac i ddatblygu strategaeth sy'n gosod sylfaen gadarn ar gyfer ymatebion creadigol Cymraeg i argyfyngau byd-eang. Er mwyn arwain yn y sector hwn, rhaid ymgorffori cynaliadwyedd o fewn y celfyddydau yn hytrach nag bod yn flwch arall i'w dicio.

Ehangu'r ffrâm ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru

Mae gwaith llawer o lunwyr yn gwneud y ffiniau rhwng categorïau ariannu celfyddydau anhyblyg, ac yn sicr, y syniad o 'ni' a 'nhw' rhwng perfformiwr / artist a'r gynulleidfa / arsylwr yn aneglur. Yn aml, nid yw'r artistiaid hyn yn diffinio beth maent yn ei wneud fel 'datblygiad cynaliadwy' - nid yw'r math eiriau o ddefnydd i nifer o artistiaid; ond serch hynny maent yn rhannu'r awydd, trwy godi ymwybyddiaeth, i greu cymunedau bywiog, gwella lles ac yn y pendraw creu Cymru gynaliadwy.

Gwelir y ffurfiau celf a datblygiad arferion creadigol perthynol yn croesi. Gall artistiaid sy'n gweithio yn y maes hwn dioddef o "cyn lleied o broffil mae'n anodd gwybod beth mae'r artist yn ei wneud" (Fern Thomas). Cryfder yr artistiaid hyn yw eu rhwyddineb, hyblygrwydd a'u gallu i symud rhwng sawl disgyblaeth a ffin, dechrau sgysiau a siarad gyda rhai sydd tu allan i'w sector. Mae'r artistiaid hyn yn creu strwythurau trawsffurfiol ac mae angen cefnogaeth i wneud hynny. Nid yw'r math yma o waith, fel arfer, yn cael ei ddysgu mewn ysgolion drama neu goleg celf traddodiadol, ond mae'n faes sydd nawr yn cael ei gydnabod. Mae sefydliadau sy'n cymylu ac ehangu diffiniadau o gelf, megis y cwrs Cerflunwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Brookes, Rhydychen neu Hen Goleg y Celfyddydau Dartington, wedi hyfforddi nifer o artistiaid blaenllaw sy'n defnyddio arferion creadigol cynaliadwy. Sut beth fyddai Canolfan Creadigrwydd a Chynaliadwyedd Cymru?

Mae'r adroddiad hwn yn argymhell bod CCC yn codi proffil celfyddydau perthynol, ffurfiau traws-gelfyddydol, a chyweithiau rhwng artistiaid ag rhai sydd ddim yn artistiaid (e.e. gwyddonwyr); bod llai o bwyslais ar gynnyrch ac allbwn, a mwy o bwyslais ar y broses a'r daith. Nid yw hyn yn alwad i roi'r gorau i arddangosfeydd o luniau neu gynyrchiadau theatr, ond yn hytrach i ehangu'r ffrâm o beth yw 'celf' ac i ystyried prosiectau a'u heffaith gyfrannol. Gan gymryd ysbrydoliaeth o'r ffordd mae nifer o

Ond sut mae adnabod prosiect celfyddydol cynaliadwy da?

Mae Prawf Bechdel, mewn dim ond ychydig o flynyddoedd, wedi dod yn fesur feincnod rhyngwladol cydnabyddedig ar gyfer rhywbeth oedd o'r blaen erioed wedi cael ei ystyried yn fater ddigon difrifol i gael ei fesur. Oes modd yng Nghymru dyfeisio'r "Prawf Gablik", i lenwi bwlch sy'n gwerthuso cymwysterau neu ddyheadau prosiect cynaliadwyedd celfyddydol?

Prawf Bechdel

Cyflwynwyd yr hyn a elwir bellach yn prawf Bechdel yn sribed comig Alison Bechdel *Dykes to Watch Out For*.

Mewn sribed yn 1985 yn dwyn y teitl "The Rule", mae cymeriad benywaidd dienw yn dweud ei bod hi dim ond am wyllo ffilm os yw'n bodloni'r gofynion canlynol:

- Mae'n rhaid iddi fod ag o leiaf dwy fenyw ynddi,
- Sydd yn siarad â'i gilydd,
- Am rywbeth heblaw dyn.

Symudodd y prawf, sydd wedi cael ei ddisgrifio fel "y safon y mae beirniaid ffeministaidd yn barnu teledu, ffilmiau, llyfrau, a chyfryngau eraill", i mewn i feirniadaeth prif ffrwd yn y 2010au. Erbyn 2013, fe'i disgrifiwyd gan bapur newydd ar-lein fel "ymadrodd cyfarwydd, llaw-fer gyffredin i ystyried a yw ffilm yn 'woman-friendly' " a chafodd methiant gynyrchiadau mawr Hollywood fel Pacific Rim (2013) i basio'r prawf cryn sylw yn y cyfryngau. Yn ôl Neda Ulaby, mae'r prawf yn parhau i gyseinio oherwydd "mae'n esbonio rhywbeth sydd yn aml ar goll mewn diwylliant poblogaidd: Nid y nifer o fenywod yr ydym yn gweld ar y sgrin, ond dyfnder eu storïau, ac ystod eu pryderon"

Yn 2013, ymgorfforodd pedwar sinema yn Sweden a'r sianel deledu cebl Sgandinafaidd Viasat Ffilm prawf Bechdel i mewn i rai o'u mesuriadau poblogrwydd, gweithred a gefnogwyd gan Sefydliad Ffilm Sweden.

Mae nifer o fersiynau o'r prawf wedi cael eu cynnig - er enghraifft, bod yn rhaid enwi'r ddau gymeriad benywaidd, neu fod yn rhaid cael cyfanswm o leiaf 60 eiliad o sgwrs.

[Wikipedia](#)

weithgareddau celfyddydol yn yr iaith Gymraeg yn cael eu hymgorffori yn y diwylliant a'r cymunedau, mae gwir angen edrych y tu hwnt i gelf ac artistiaid sefydledig, a chydabod bod y celfyddydau o fewn cymunedau yn chwarae rhan arwyddocaol wrth geisio gwireddu dyfodol cynaliadwy.

Nodi a chefnogi'r gwaith o ddarparu prosiectau celfyddydol cynaliadwy yng Nghymru.

Cydweithio a Rhwydweithiau

Mae pwysigrwydd cydweithio a rhwydweithiau yn cynyddu i gychwynwyr, yn enwedig, gan fod llawer ohonynt yn gweithredu y tu allan i'r model ariannu traddodiadol, cylchedau teithio neu ganolfannau diwylliannol. Mae fforymau yn bodoli (er enghraifft Tipping Point, Julie's Bicycle a Emergence) ond mae'r rhan fwyaf yn Lloegr. Dywedodd bron bob un yn yr arolwg a oedd yn mynychu'r math yma o rwydweithiau bod y profiad o rwydweithio yn ddylanwad mawr ar eu gwaith.

Mae ymdeimlad pendant y bydd rhwydweithiau real a rhithwir (megis Culture Colony ac Eginiaid) yng Nghymru yn dod yn fwy pwysig ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â chreu newid. Dywedodd mwyafrif llethol o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg fod creu fforymau a rhwydweithiau'r un mor bwysig â sicrhau bod mwy o arian ar gael. Mae gwybodaeth ymarferol, offer a hyfforddiant mewn arferion cynaliadwy hefyd yn bwysig. Mae'n amlwg bod angen i artistiaid gwrdd er mwyn gwneud y gwaith hwn. Argymhellir y gallai'r CCC chwarae rôl fwy pendant wrth ddod â phobl at ei gilydd, ar gyfer cydweithio, rhannu gwybodaeth a thrafod syniadau creadigol. Ar ben hynny, i gefnogi marchnata prosiectau drwy ddulliau cynaliadwy.

Y broses o geisio am arian

Ar sail y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn, nid yw asesu ar gyfer cynaliadwyedd yn ystod y broses ymgeisio yn flwch arall i'w dicio. Mae mwy i brosiect celfyddydol cynaliadwy na goleuadau LED a chynnal a chadw adeiladau carbon isel. Y disgwyl byddai i brosiect o'r math ddangos bwriad cynaliadwyedd clir gyda phroses a darpariaeth sy'n fuddiol i hyn. Nid yw chwaith, o reidrwydd, yn ymwneud a mesur nifer o berfformiadau, na chwaith ymwelwyr i arddangosfa. Mae angen i'r broses ymgeisio fod yn ddigon hyblyg i sicrhau bod prosiectau celfyddydol cynaliadwy (fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn) ddim yn syrthio drwy'r rhwyd gyllido oherwydd eu hanallu i ddarparu rhestr lawn o ganlyniadau disgwylidig. Nid yw hyn yn awgrymu bod agwedd 'ffwrdd a hi', neu ein bod yn cydoddef ceisiadau 'niwlog', ond yn hytrach bod y drefn ymgeisio yn cymryd i ystyriaeth ffurfiau celfyddydol mwy perthynol a thrawsnewidiol a bod y ffurflenni yn cael eu diwygio yn unol â hynny.

Efallai bydd rhai prosiectau yn fwy mentrus, gan fod artistiaid yn annhebygol o wybod ymlaen llaw canlyniad neu'r daith byddant yn eu cymryd, ond mae dystiolaeth yn dangos bod y broses greadigol yn aml angen y math yma o ansicrwydd mewn prosiectau celfyddydol cynaliadwy, a bod angen ymddiried yn yr artistiaid. Mae amser hefyd yn ffactor pwysig i'w ystyried. Mae'r math yma o brosiectau yn aml yn cymryd

mwy o amser ac mae'r cerrig milltir yn llai diffiniedig. Ond, rhaid nodi, gall yr effaith hir dymor fod yn fwy oherwydd eu bod yn gwneud cysylltiadau dwfn, grymus a thrawsnewidiol.

Gan fod nifer o'r artistiaid hyn yn edrych tuag at greu dyfodol cynaliadwy, mae bwlch sylweddol yn yr offer sydd ar gael i artistiaid i ddeall a monitro gallu eu gwaith i effeithio ar newid mewn ymddygiad. Argymhellir bod y CCC yn gweithio gyda phrosiectau sydd wedi cael eu cynllunio'n benodol i gefnogi newid ymddygiad (er enghraifft y PIRC: Public Interest Research Council sydd wedi ei leoli yng Nghymru), ac yn benodol asesu ac archwilio gwaith monitro ar sail tystiolaeth o effaith y celfyddydau ar newidiadau diwylliannol. Mae rhai sefydliadau eisoes yn gweithio gyda sefydliadau academaidd i ddatblygu systemau monitro ar gyfer y gwaith hwn, er enghraifft, mae Awel Aman Tawe wedi bod yn gweithio ers 2010 gyda Phrifysgol Rhydychen i fonitro a gwerthuso newid ymddygiad o ganlyniad i'w rhaglen gelfyddydau cynaliadwy. Ond mae angen annog adrannau prifysgolion Cymru i fod yn rhan o'r gwaith hwn. Yn ogystal, argymhellir bod CCC yn defnyddio offer presennol i ganfod amcanion a thargedau mesuradwy ac ar gyfer monitro cynaliadwyedd, (e.e. Julie Bicycle's IG tools) ac i chwilio am brosiectau sydd â pholisiau datblygu cynaliadwy ffurfiol ar waith a / neu sy'n llofnodwyr i'r Siarter Datblygu Cynaliadwy.

Annog prosiectau celfyddydol cynaliadwy mewn cymunedau ledled Cymru

Derbyniodd ein harolwg ymatebion gan artistiaid ledled y wlad, ar draws gwahanol feysydd ac mewn ardaloedd trefol a gwledig. Cynigir y bydd artistiaid sy'n dewis gweithio mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn chwarae rhan gynyddol bwysig wrth ddatblygu ystwythder ac mae'r adroddiad hwn yn argymhell bod eu gwaith yn cael ei ystyried yr un mor bwysig â'r hyn sydd yn rhan o system oriel / theatr ganolog. O bwysigrwydd mwyaf ydy potensial y math hwn o waith i gryfhau cysylltiadau â gweithgareddau celfyddydol sy'n bodoli eisoes yng nghymunedau a diwylliannau Cymraeg eu hiaith ac o ganlyniad gall helpu i bontio'r bwlch ieithyddol syn amlwg yn y sector. Mae artistiaid lleol mewn sefyllfa dda i hwyluso prosiectau yn eu hardaloedd eu hunain, ac awgrymir bod CCC yn ystyried o ddifrif cefnogi artistiaid o fewn cymunedau sy'n cael eu trawsnewid o fewn cyd-destun gynaliadwyedd (e.e. manau lle mae archfarchnadoedd mawr yn cael eu cynnig, neu ffracio, neu ffermydd gwynt / solar).

Annog cydweithio dwyieithog ac addysg draws-diwylliannol

Mae'r adroddiad o'r farn fod yr iaith Gymraeg yn hanfodol er mwyn cael mynedfa i gyd-destun diwylliannol penodol Cymru a dylai fod yn rhan annatod o'r broses a'r drafodaeth o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae ymatebwyr i'r arolwg yn gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg, ac eto, mae'r celfyddydau yn chwarae rôl sylweddol yn niwylliant yr iaith Gymraeg - rôl mae nifer o'r prosiectau a amlinellir yn yr adroddiad yn gweithio tuag ati. Mae'r amodau'n berffaith i gael trafodaethau traws-diwylliannol a thraws-ieithyddol am gelfyddyd gynaliadwy. Argymhellir bod mwy o ymchwil, digwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal i archwilio ac ymgysylltu â syniadau o 'cynaliadwyedd' o fewn niwylliant yr iaith Gymraeg ac i hwyluso ac annog ffyrdd newydd o ddysgu. Trwy hyn gallwn greu diffiniadau a phrosesau cyd-gysylltiedig sy'n siarad â, ac yn cynnwys, y rheiny sy'n gweithio yn y ddwy iaith.

Argymhellion gan ymatebwyr yr arolwg:

"Gallai CCC chwarae rôl llawer mwy pendant wrth ddod â phobl at ei gilydd ac annog cydweithio ac meddwl yn greadigol gyda rhai galwadau grant. (ar hyd llinellau y Celfyddydau a Gweithdai Ymchwil Dyniaethau)."

"Rwy'n credu y dylai pob SCR (Sefydliad Cyllid Refeniw) ymrwymo i'r Siarter Datblygu Cynaliadwy a gosod amcanion a targedau mesuradwy eu hunain."

"Bod yn ofynnol bod sefydliadau celfyddydol yn ymateb i sut y maent yn mynd i'r afael â materion cynladwyedd (y cynnwys neu swyddfa / sefydliad arferion bob dydd)."

"Mae'n amser i CCC ystyried estheteg perthynol fel dangosydd o ansawdd ac yn deall y pŵer o waith celf sy'n ceisio cysylltu ac yn annog deialog fel eu prif gyfrwng."

"Mae angen i CCC arwain y ffordd o ran ymgorffori cynaliadwyedd yn hytrach na ei gyflwyno fel blaenoriaeth arall/ticiwch y bocs. Mae cyfathrebu a dealltwriaeth yn allweddol."

"Ystyriwch hirhoedledd a pharhad mewn perthynas â phrosiectau a sefydliadau sy'n ymwneud gymuned".

"Datblygu pot penodol o arian fyddai ar gael drwy broses ymgeisio ar gyfer prosiectau cydweithredol rhwng y sefydliadau celfyddydol a'r grwpiau gwyddoniaeth a chynladwyedd."

"Hyfforddi staff y cyngor y celfyddydau ym maes datblygu cynaliadwy."

"Peidiwch â chreu categori arall ar wahân ond gwehyddu materion cynladwyedd ym mhob prosiect a ffrydiau ariannu."

"(Annog) gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ar draws y sectorau".

"Rwy'n credu bod y prosiect llwyddiannus ar raddfa fawr fel "Vetch Veg" wedi agor sefydliadau celfyddydol lleol a hefyd Cyngor Abertawe at y math yma o weithio - felly weithiau mae angen prosiect fel hyn sy'n rhoi esiampl i gyfeirio at wrth drafod prosiectau yn y dyfodol."

"Rhannu adnoddau (Rwyf yn dychmygu warws prydferth llawn o hen setiau, propiau, technoleg sy'n galluogi llogi ac yn y blaen). Rhannu adnoddau hefyd o ran sefydliadau allbynnau/digwyddiadau/rhannu pryderon, partneriaethau ar ymdrechion ar y cyd."

"Rwy'n credu y dylai Cyngor y Celfyddydau fod yn ychydig fel yr Undeb Ewropeaidd, sydd â themâu trawsbynciol mewn ceisiadau am gyllid lle mae'n rhaid i bobl ateb, o ran ariannu unrhyw brosiect, sut mae hyn yn berthnasol at wydnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd. Byddai hynny yn gael i bawb feddwl am y peth. Ar gyfer unrhyw fath o gyllid Ewropeaidd mae yn rhaid i chi ateb tair thema trawsbynciol sef un ocyfartal, un o gynaliadwyedd amgylcheddol a'r un arall am TG."

"Mae cynaliadwyedd o'r celfyddydau yn debyg i reoli coetiroedd: Torri pren marw a gwneud lle i'r newydd i dyfu".

Cefnogi'r unigolyn

Sut ydym yn cynnal y sawl sy'n gwneud y gwaith hwn? Fel mae'r adroddiad yn nodi, mae sawl achos ymysg artistiaid a'r rhai sy'n gweithio o fewn cynaliadwyedd o ludded. Mae'r risg yn ddeublyg i'r sawl sy'n gweithio o fewn y celfyddydau cynaliadwy. Ar hyn o bryd mae'r rhai sydd ar flaen y gad yn cymryd rôl artist, rheolwr prosiect, ymchwilydd, swyddog y wasg ac yn y blaen, heb fawrgefnogaeth. Sut gall yr artistiaid hyn cael eu gwerthfawrogi am eu gwaith arloesol yn eu meysydd? Oes angen 'Theatr Cenedlaethol ar gyfer Cynaliadwyedd Answyddogol' neu 'CGR Cynaliadwyedd' newydd neu Gynhyrchedd Creadigol?

Er bod sawl rhaglen yn y DU wedi'u sefydlu i gefnogi arweinwyr diwylliannol ac arloeswyr (er enghraifft y Rhaglen Arweinyddiaeth Clore), mae nifer o gychwynwyr yn datblygu eu gwaith heb y fantais o fentoriaid neu raglenni arweinyddiaeth. Mae math newydd o arweinydd sy'n dilyn trywydd mwy 'DIY' ac sy'n fwy tebygol o hyrwyddo a chydweithio yn hytrach na datblygu strwythurau hierarchaidd. Mae'r arweinwyr hyn yn chwarae rôl arwyddocaol wrth i ni ystyried y dyfodol rydym yn ei ddymuno. Mae nifer fechan o unigolion ar hyn o bryd yn gwneud llawer iawn o waith, ac eto nifer fechan o raglenni sydd wedi eu sefydlu i'w cefnogi. Yn yr ardal hon, gall ychydig o fuddsoddiad greu dylanwad mawr. Mae rhaglenni mentora fel Yr Odyn gan Volcano neu Lab NTW yn hanfodol yn ogystal â phresenoldeb arloeswyr creadigol fel y diweddar Kim Fielding o Tactile Bosch neu Ann Jordan o Elysium, y ddau'n arweinwyr / cychwynwyr newid a gwagleoedd newydd. Rydym yn argymhell system mentora fwy ffurfiol i arweinwyr creadigol sydd â diddordeb mewn cynaliadwyedd.



Wall Hanging, Head4Arts

Epilog

Er eu bod y tu hwnt i gylch gwaith yr adroddiad hwn, rhan o'n strategaeth ymadael yw adlewyrchu ein diddordeb i ddatblygu mewn partneriaeth â'r CCC a dehongli ac ymgysylltu gyda chanfyddiadau'r adroddiad gan artistiaid o amryw o ffurfiau celf ar gyfer y dyfodol. Gall hwn fod ar fformat digidol, ar ffurf llenyddiaeth neu gyflwyniadau celf fyw. Byddai gennym ddiddordeb mewn comisiynu artistiaid Cymreig sydd â record o gynhyrchu celf gynaliadwy i ymateb, dehongli a dadansoddi canlyniadau'r adroddiad. Gallai hyn gael ei ariannu drwy geisiadau am gyllid yn y dyfodol gan NESTA, y Loteri a Chronfeydd Cyngor y Celfyddydau.

Ochr yn ochr â'r comisiynau hyn, mae Eginiaid yn cynnig y dylid trefnu nifer o symposia ar ffurf dyddiau ymarferol, arbrofol a fyddai'n cynnwys lledaenu canfyddiadau'r adroddiad. Bydd y rhain yn helpu adeiladu rhwydwaith, darganfod gwybodaeth bellach gan alluogi casglu data ychwanegol a thrwy hynny gynyddu'r lledaeniad, cyrhaeddiad a phroffil y prosiect. Byddai'r symposia Eginiaid yn cael eu cynnal gan aelodau o'r fîm ac yn cael eu trefnu er mwyn cyrraedd sawl ardal dros Gymru. Byddant yn cael eu cynnal mewn partneriaeth â gweithredwyr rhanbarthol sydd â gwaith wedi'u hamlygu yn yr adroddiad mapio cychwynnol. Bydd y rhain yn fach (tua 20 o gyfranogwyr) ac o bosibl yn cael eu cynnal mewn lleoliadau anffurfiol. Rydym yn gweld y symposia hyn fel adrifiad nesaf Eginiaid byddai'n sefydlu'r rhwydwaith fel endid corfforol, cynyddu gwybodaeth am rwydweithiau digidol a rhoi cyfle i fod yn rhan o'r rhwydweithiau rydym yn bwriadu creu gyda chymorth NESTA. Yn ogystal â hyn, byddai'n galluogi cyfarfodydd wyneb yn wyneb gydag aelodau presennol a newydd y rhwydwaith.

Byddwn yn gwneud cais am gyllid i gomisiynu artistiaid a ddisgrifir uchod yn ogystal â chyllid i redeg nifer o symposia ar ôl cyflwyno'r adroddiad.



Maynard Come Home, Simon Whitehead

Cyfweliadau

Cyfweliad gyda Rabab Ghazoul

Cyfranogi ac Ymgysylltiad Cymdeithasol

Y cwestiwn rydw o hyd yn ei ofyn ydy, pam yr ydym yn ymgysylltu â phobl? Ar dermau pwy mae hyn yn cymryd lle a pha agenda mae'n ei wasanaethu? Yn fy mhrofiad i mae ymarferiadau cyfranogol yn fy ngorfodi i i ymgysylltu'n wirioneddol â'r cwestiynau hynny mewn ffordd feirniadol a thrylwyr.

Yn fy ymarferiadau cynnar, roeddwn yn gweithio o fewn y theatr a pherfformiad cyfoes arbrofol - 12 mlynedd yn ôl symudais i mewn i faes celfyddydol a oedd yn fwy gweledol. Yr hyn sydd o ddiddordeb sylfaenol i fi fel artist ydy - sut ydyn ni'n cysylltu? Beth sy'n creu cysylltiadau ystyrlon? Mae llawer o fy ngwaith yn ymwneud â'r sgrysiol ac mae'n amlygu eu hun yn fy ngwaith mewn amryw o ffyrdd. Mae'r gwaith yn ymddiddori yn y manau lle mae pobl yn cwrdd, mewn manau lle mae pobl yn trawsdorri ac ymgysylltu â'i gilydd.

Beth mae'n ei olygu wrth i ni drafod integreiddio diwylliannol, cydlyniant cymunedol, iechyd a lles, gymunedau iach neu adfywio? Sut mae cymuned neu grŵp o bobl yn edrych? Felly fel artist unigol, ymarferwr, a hefyd, mewn ystyr ehangach, fel person sy'n arwain, neu'n rheoli prosiectau mae fy arferion yn cael ei llywio gan y cymdeithasol. Rydw i'n deall bod ein harfer sefydliadol yn aml yn dehongli hynny, nid o hyd yn ymwybodol, ond mewn ffordd eithaf cul. Mae hynny'n aml oherwydd cyfyngiadau adnoddau, gyllid, amser o gapasiti. Ond pan fyddwn yn gweithio gyda phobl, nid ein gwaith fel ymarferwyr sydd o ddiddordeb, ond yn hytrach ehangu gwagleoedd a gwahodd pobl i mewn. Yr hyn sy'n bwysig ydy gwahodd pobl na fyddai'n mynychwyr wyl ffilm neu gyfres o arddangosfeydd yn arferol - sut a pham mae hyn yn cael ei gwneud ydy'r cyfrifoldeb mwyaf. Mae llawer o fy ngwaith yn ymwneud â phwy ydy'r cynulleidfaoedd a chyfranogwyr sy'n dod i mewn i ofod penodol. Sut gallwn ehangu'r math wagleoedd?

Proses a Chynnyrch

Mae gen i ddiddordeb yn y ffordd y mae ein hymyriad creadigol yn creu posibiladau newydd i bobl, gwella'r hyn y gall cymuned fod trwy rym arferion diwylliannol neu waith creadigol. Mae gen i ddiddordeb herio rhai o'r dulliau presennol neu gonfensiynol o ddiwylliant, chreadigrwydd a chelf.

Rwy'n gallu gweld yr effaith hyn ar fy fy mhrosiectau – mae'r rhoi'r gallu i bobl ddatblygu ymdeimlad o ruglder ac ymdeimlad o gymuned, cyfathrebu a chysylltiad - ac rydw i'n credu bod hyn yn cael ei drafod yn helaeth yn ogystal â'r ystrydeb o 'Nid yw'r gymuned yn bodoli yn y ffordd ag yr oedd.' Rydw i'n credu bod hyn yn rhannol gywir a hefyd yn ffordd ramantus o ystyried sut oedd cymunedau yn gweithredu yn y gorffennol. Rwy'n credu bod y rhwystr yma o gysylltu wedi bodoli ym mhob oes. Mae gan strategaeth ddiwylliannol ddull wirioneddol bwerus o dynnu allan yr hyn sydd gan bobl i'w gynnig, o dynnu allan eu potensial. Beth mae'n ei olygu i ddeall ein hunain a deall mwy o'n hunain?

Sut mae'r gwaith yn edrych?

Rwy'n credu'n gryf bod creadigrwydd wedi bodoli o hyd, lle bynnag yr ewch chi, boed os ydy ganolfan gelfyddydol, ofod diwylliannol neu ofod cymunedol yno neu beidio. Yn aml byddaf yn gweithio ochr yn ochr â phobl - gorymdeithiau placard, er enghraifft - rhywbeth sy'n rhoi cyfle i mi weithio fel artist gyda chysyniad yr wyf am ei ddilyn, adegau eraill gall hyn tynnu pobl eraill i mewn i rywbeth sydd yn orymdaith lythrennol, ymyriad mewn gofod cyhoeddus. Gall cyflwyno ein hunain yn y byd cyhoeddus ac ysgogi ymateb neu'n codi ymwybyddiaeth y gall pethau ddigwydd mewn ffordd wahanol fod yn rhan o strategaeth ddiwylliannol effeithiol oherwydd, rydw i'n meddwl, ei fod yn presenoli diwylliant, personoli creadigrwydd, y tu hwnt i'r oriel neu'r llwyfan.

Delio ag Anhawster

Rhaid hefyd ddod o hyd i ffyrdd o ddelio efo gwrthdaro sy'n dod i'r amlwg o fewn y sefyllfaoedd hynny, a'r diffyg llwybrau clir a syml wrth weithio gyda phobl. Boed hynny'n golygu'r pwysau a sialens enfawr o fod yn ynysig neu dlodi neu amddifadedd sy'n amlygu ei hun mewn cymaint o wahanol ffyrdd. Mae diffyg cyfleoedd o ran addysg neu ddiweithdra, yn faterion enfawr i gymunedau ac yn aml gymunedau penodol iawn sydd â sialensiau hir sefydlog.

Mae arferion cyfranogol yn ymwneud ag ymgysylltu â'r hyn sydd yno. A beth sydd yno ydy popeth sydd gan yr unigolion, ac unigolion sy'n rhan o gymunedau, i'w gynnig. Yr hyn yr wyf i ac artistiaid eraill yn cynnig yn y sefyllfa hon ydy'n profiadau, ein hanesion, ein potensial a'n cyfyngiadau. Beth sydd o ddiddordeb yn y manau hynny ydy'r gwrthdaro a sut yr ydym yn llywio hynny, tuag at ymdeimlad o gysylltiad â chymuned, a sut rydym yn defnyddio arferion creadigol i fynd ar eu trywydd. Rhan o'r broses honno yw'r terfynau, y gwrthiannau, y tensiynau rhwng grwpiau, a dyma'r rhan o'r broses sy'n fy niddori i. Gwir fesur grym arferion diwylliannol yw sut y gall ddarparu ffyrdd o lywio'r pethau naturiol sy'n dod i'r amlwg o fewn, a rhwng, bodau dynol a sut yr ydym yn delio â'r pethau sy'n codi rhwng pobl os ydym â diddordeb ymwneud â hwy neu rannu gofod gyda nhw, neu symud materion ymlaen gyda nhw, neu herio syniadau penodol y cyngor ar adfywio.

Hefyd o ddiddordeb ydy sut mae grwpiau o bobl neu gymunedau yn herio arferion sefydliadol ac yn herio naratif, neu rai o'r hanesion parhaus wrth drafod beth ydy newid, beth ydy adfywiad, beth ydy trawsnewidiad, beth ydy cydlyniant cymdeithasol. A hefyd, i raddau, herio adeileddau grym. Ond pryd daw grymuso yn rhan o'r broses? Ym mhle cawn ni ddeialog neu drafodaeth mewn gwagleoedd lle na fu trafodaeth o'r blaen, neu mewn manau lle mae pobl wedi diflasu ar ddeialog gan ei fod yr un peth, a gwir symud i wagleoedd lle gall bobl gredu yn hynny - lle mae'r gonestrwydd newydd hyn? Mae gen i ddiddordeb yn y ffordd yr ydym yn cydnabod ac yn cael deialog am ein canfyddiadau gwahanol o'r nodau neu ddyheadau hynny, a sut mae'n teimlo i wahanol grwpiau o bobl.

A yw'n gelf?

Un o'r cwestiynau sy'n dod i'r amlwg ydy: beth ydy arferiad cymdeithasol a sut mae'n wahanol i waith ymarferwyr cymunedol neu actifydd gwleidyddol? Mae artistiaid yn diffinio beth ydy'r arferiad gan ddefnyddio

strategaethau penodol iawn o fewn eu gwaith neu ddefnyddio dulliau cysniadol. Felly gall fod gorgyffyrddiant rhwng datblygiad cymunedol ac arferion o adfywio, ond rwy o'r farn bod artistiaid yn ymdrin â'r ardaloedd hynny mewn amryw o ffyrdd. Mae unigolyn yn cwestiynu ei arferion a sut mae hyn yn teimlo ... rydych yn ceisio tynnu allan hanfod yr hyn yr ydych yn ei wneud fel artist mewn sefyllfa benodol, mewn cyd-destun penodol neu ddarn penodol o waith. Rydw i'n credu bod hynny'n her i bobl sy'n gweithio gydag arferion cymdeithasol neu arferion cyfranogol, ond ar yr un pryd mae'n gyfle pwysig.

A yw'n ymatebol?

Rwy'n credu ei fod bron yn amhosibl i artistiaid beidio ag ymateb, yn yr ystyr ehangaf, i beth sydd digwydd o'u cwmpas, beth sydd yn y byd. Ond byddwn yn dweud bod fy arferion fy hun - os wyf yn edrych ar fy arferion maent o hyd a diddordeb yn yr hyn sydd o fy nghwmpas ac mae'n anodd gwybod beth sy'n dod yn gyntaf, mae'r holl beth yn cydblethu.

Creais ddarn o waith a oedd yn dibynnu'n helaeth ar grŵp o bobl a oedd yn ganlyniad i seiclo o gwmpas ym mis Rhagfyr a gweld be roeddwn i'n ei ystyried yn hysbysebion sarhaus, hysbysebion bilfwrdd gan Coca-Cola a oedd yn dyrchafu hysbysebu diflas i lefel uwch. Dyna lle yr oeddwn i, yn troelli yn fy mhen, ac fe ysgogodd yr holl hysbysfyrddau yma i fi fynd 'O'. Beth ddaeth i'r amlwg oedd y dymuniad i ymateb i hyn. Byddwn i wedi gallu ymateb mewn ffordd nad oedd yn galw am gymorth gan unrhyw un. Byddai wedi bod yn ddigon hawdd i mi ymateb mewn sawl ffordd fel artist. Ond roeddwn i eisiau gwneud hyn efo amrywiaeth o bobl, gyda grŵp o bobl. Ac yn yr ystyr hynny mae'n alwad agored iawn ...Dydw i ddim yn awyddus i ddefnyddio'r term 'alwad agored' gan nad ydy unrhyw beth yn agored gan nad ydy ein cymuned yn cynrychioli'r holl fyd - felly mae'n alwad agored ar draws trawsdorïad o rwydweithiau a chymunedau.

Ond yn yr ystyr hynny, roedd gwireddu'r gwaith - sef 35 - 40 o bobl yn dal i fyny set wahanol iawn o destunau dan hysbysfwrdd gwag - dyna'r cyfuniad o'r esthetig lle rydych yn ymateb i'r allanol a'r mewnol - y syniadau sydd gennych fel artist, ac i beth sy'n mynd ymlaen yn eich amgylchedd.

Cynaliadwyedd

O ran cynaliadwyedd, rwyf am weithredu mewn ffordd lythrennol iawn, gan ddechrau efo defnydd o adnoddau a defnyddiau. Rwyf o hyd wedi cael fy nenu tuag at weithio gyda deunyddiau 'darganfyddiedig' neu ddefnyddiau sy'n bresennol neu hyd yn oed dweud 'mae hwn eisoes wedi cael ei ddefnyddio'. Rydw i lawer hapusach yn gweithio o amgylch pethau sydd eisoes yn cael eu defnyddio. Rhan o'r dull hwn ydy ymateb i bethau sydd yno eisoes neu creu dull o ail-fframio.

Etifeddiaeth

Beth yw effaith y prosiect y tu hwnt i'r cyfnod gwaith? Beth sy'n dod i'r golwg? Beth sy'n digwydd pan gollir hyn neu'n pan ddaw i ben? Ar un lefel y gallaf ddweud, iawn, fe wnes i breswylïad ddeng mis ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac rwy'n bendant yn teimlo mae nid cyd-ddigwyddiad oedd bod rhai o'r gwirfoddolwyr ar y prosiect hwnnw, y rhai oedd mwyaf ynghlwm i'r prosiect, ddim am weld y prosiect yn dod i ben - er yn amlwg roedd y

prosiect yn cael ei ariannu am gyfnod penodol ac roedd hynny'n dod i ben ac roeddwn i'n gadael. Ond cododd grŵp celfyddydol newydd allan o hynny, cafodd ei redeg gan bobl leol sy'n dal i barhau i wneud pethau ym Mhen-y-bont gyda chyllid o ffynhonnell arall. Cynaliadwyedd yn yr ystyr hwnnw ydy – rhan o beth ydy'r bobol yma, a sut mae hyn yn eu galluogi i gynnal a pharhau i weithio yn y ffyrdd hyn?

Rwy'n credu bod llawer o'r gwaith sy'n dod o dan y pennawd 'mynediad,' 'allgymorth' neu 'ddatblygiad,' pan nad yw'n cael ei brif-ffrydio yn ein harferion gweithredol, neu pan nad yw'n cael ei brif ffrydio i mewn i'r ffyrdd craidd y mae sefydliad neu brosiect yn cael ei gweithredu - mae yna beryg datblygu pethau byrdymor sydd mewn gwirionedd yn gwasanaethu ein hanghenion, yn ticio bocsys a chynnal ein harferion craidd - ond gall fod yn gamddefnyddiol os nad ydym yn meddwl am beth ydy'r potensial hir dymor a'r hyn sy'n cael eu cynnal o ran ymgysylltu a chynnwys i'r bobl. O dan ba delerau gallwn gynnwys grwpiau penodol o gymunedau penodol, ac yn enwedig y rhai sy'n cael ei ddisgrifio yn 'waharddedig' neu 'ar y cyrion'?

Os ydym yn ceisio ennyn diddordeb pobl - sut mae'r bobol hyn yn ymgysylltu? Sut mae cynnal eu hymgysylltiad tu hwnt i'r amlygiad cychwynnol? Sut mae grŵp o bobl yn trawsnewid i fod yn gynulleidfa graidd? Rwy'n credu bod hynny'n bwysig, ac yn cysylltu i hyn mae'r syniad o sut yr ydym yn edrych ar gynulleidfaoedd a sut yr ydym yn edrych ar gyfranogwyr posibl ac rydw i o'r farn ein bod ni weithiau yn adrannu. Sut mae datblygu manau penodol iawn, sy'n ein galluogi i gyfuno ein cynulleidfaoedd? Rydym yn cyfeirio at mynediad ac eithrio drwy gael rhaglenni pwrpasol ar gyfer cymunedau penodol, ond nid yw'r bobl hynny byth yn dod i'ch oriel neu'ch canolfan gelfyddydau neu eich neuadd gyngerdd. Os nad yw'r bobl hynny yn dychwelyd na chwaith yn teimlo ei bod yn rhan o grŵp ehangach sy'n mwynhau'r celfyddydau neu'n mynychu prosiectau, yna rwyf o'r farn bod angen codi'r cwestiwn o gynaliadwyedd. Mae orielau wedi bod yn rhad ac am ddim am flynyddoedd ond nid yw bobol yn teimlo'n gyfforddus mewn rhai manau penodol.

www.axisweb.org/p/rababghazoul

Cyfweliad gyda David Colwell

Yr Her Creadigol

Mae'n ymddangos i mi taw'r her creadigol - os yw'r hyn yr ydym yn meddwl sy'n digwydd YN digwydd - yw gwneud y dyfodol yn hygyrch, yn ddymunol, yn gyffrous (a) heriol, ond heb fod yn fwy heriol nag sy'n angenrheidiol. Dyna ein gwaith.

Mae'n ymwneud ag iaith, a'r hyn y mae pobl yn derbyn - y doethineb a dderbyniwyd. Yn fy myd mae'n cael ei dderbyn drwy'r hyn sydd gennych o'ch cwmpas. Mae yna reswm, os ydych yn uchelgeisiol, bod gennych dŷ ffrâm dderw ffug-Duduraidd, mae'n cyfleu diogelwch - ond sut allwch chi fod mor ddi-hid am 'nawr'.?

Ewch i sioe dodrefn, 100% Design neu rywbeth fel 'na, a does bron ddim yno na ellid fod wedi cael eu cynllunio yn 1953. Mae'r 'peth' modern canol y ganrif hon ymhobman. Gallwch weld pam. Roedd yn gyfnod pan oedd lot o egni creadigol ac ymdeimlad na allai pethau fod yn waeth. Yr holl brofiad o gyfnod rhyfel, a'r technolegau a ddaeth allan o hynny, a lot o 'newydd-deb' a brwdfrydedd ac egni.

Dyma'r byd lle cefais fy magu. Ond nid oedd y byd hwnnw yn ymwneud ag adnoddau cyfyngedig. Yr oedd am y Freuddwyd Americanaidd, neu fersiwn Scanda o'r Freuddwyd Americanaidd. Clywais yn ddiweddar nad gŵyl Prydain oedd Gŵyl Prydain, ond yn hytrach gŵyl o Sgandinafia. Mae'r holl ethos hwnnw a fabwysiadwyd gennym yn Sgandinafaidd. Roedd yn egalitaraidd. Yr oedd yn fforddiadwy. Roedd yn gyffrous. Roedd yn fyd cyfan o ddeunyddiau newydd: plastigau, castiau alwminiwm - yn bendant dechreuodd fy ngyrfa fel dylunydd yn y byd hwnnw. Mae'r gadair persbecs a greais yn 1968 fel myfyriwr yn awr yn enwog.

Ond mae'r freuddwyd yn amhriodol am y tro. Mae'r mudiad modern - y peth Corbusier, y tŷ yn beiriant ar gyfer byw. Neu'r peth Bauhaus, gan ddechrau gyda safbwynt Walter Gropius - pob un ohonynt yn deillio o gyflwr yr Almaen rhwng y rhyfeloedd: amddifad. Ond roedd yn ymddangos bod pob un o'r symudiadau hynny yn chwilio absoliwt. A'r newid mawr nad ydym wedi dod i delerau ag ef, yw ei fod yn berthnaseddol - mae'n gymharol. Nid oes unrhyw absoliwt. Ddim mewn gwirionedd. Mae gwyddoniaeth wedi bod yn dweud hyn wrthym, ers diwedd y 1960au.

O Absoliwtiaeth i Perthynolaeth

Felly dyna'r newid mawr, ei fod yn fyd perthnaseddol, ac nid ydym wedi deall hynny. Efallai yn wyddonol, ond yn ddiwylliannol, braidd dim.. Ac mae gennym gyfeirnodau, ac yn fy myd dodrefn a gwaith coed, mae'r model ar gyfer hynny yn mynd yn ôl hyd yn oed ymhellach - fel yn wir y mae'r mudiad modern - mae wir yn mynd yn ôl at y mudiad Celf a Chrefft. Dyna sy'n ddiddorol iawn am y symudiad Celf a Chrefft - A) o hyd yn edrych yn ôl. Ac B) nid oedd yn ddyfeisgar. Doedd dim byd newydd technegol am eu cynnyrch - yr oedd patrymau neis a rhywfaint o ysgrifennu diddorol, dydw i ddim am ladd ar un rhywbeth, ond doedd dim dyfeisgarwch. Felly, yn fy marn i mae hyn yn gynfas gwyn, ond mae angen iddo gyrraedd mäs critigol i symud ymlaen. (Ond) nid yw'n gweithio o safbwynt economaidd. Fel u sydd wedi rhedeg cwmni gyda deg o weithwyr, yr anogaeth gan y polisi trethiant yw eich bod mwy ar eich ennill yn prynu peiriant na chyflogi person.

Mae'r gwaith rwy'n ei wneud yn awr yn cael ei wneud mewn ffatri yn Coventry ac mae wedi bod yn anodd iawn eu darbwyllo am werth y syniad hwn. Os edrychwch ar y pren hwn, a'i deimlo, mae ganddo ansawdd. Ac fel arfer beth sy'n digwydd gyda phren yw eich bod yn ei llifo, yna ei daenu - i gyd yn fecanyddol. Mae pob gweithred yn defnyddio llawer o ynni. Gyda'r math yma o dorri, mae cenhedlaeth newydd llafnau llifo band, sy'n 'tungsten tipped', sy'n torri'n braf, ac mae'n dod yn syth oddi ar y llif. Mae hyn yn golygu bod angen ei wneud yn iawn, oherwydd dim ond un cyfle gewch chi. Mae'n rhaid i chi sefyll ar ddiwedd peiriant a phasio pethau trwodd, felly mae 'na elfen o sgil. Mae yna mewn gwirionedd yn llai o amser ond fwy o sgiliau, ac mae llawer llai o wastraff oherwydd, i wneud y darn hwn, byddai wedi gorfod bod yn 2mm fwy reit o amgylch, sydd bron yn 25% o'r cyfaint.

Felly, rydych dorri allan y broses o daenu ac, os ydych wedi bod erioed i mewn i ffatri ddodrefn, mae'n cael ei wneud ar beiriant maint yr ystafell hon sy'n taenu 4 ochr ar unwaith, a bydd yna echdynnydd llwch arno fydd yn cael defnyddio o leiaf deg marchnerth, ac mae'n sugno aer - nid ydynt yn gwybod faint o droedfeddi ciwbig y funud, ond byddai'n gwagio ystafell fel hon o aer bob 5-10 eiliad. Yna mae'n rhaid iddo gael ei hidlo - ac wrth gwrs, mae hyn i gyd yn aer rydych wedi cynhesu. Ac mae'n swllyd. Mae'r rhai newydd yn llai swllyd na'r rhai hŷn, ac mae'n mynd i gostio £ 15,000. Ac mae'n mynd i gael 20-30 marchnerth o ynni trydan ynddo. I'w gwneud yn dawedog. Beth sydd mor dda am tawedog?

Gyda'r broses plygu stêm, mae'n rhywbeth ble rydych yn mynd o bren heb ei sychu i bren sych, a ffurfiwyd mewn un tro, a gyda llai o ynni. Rwyf wedi bod yn gwneud hynny ers 35 mlynedd bellach. Ges i grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2010 a dyna pryd ddechreuais wneud y gwaith hwn. Nid wyf wedi gwneud archwiliad cyflawn arno oherwydd bod cymaint o newidynnau. Yn ôl pob tebyg mae tua hanner yr ynni yn cael ei arbed ac yn bron yn sicr mae'n ddwywaith yn gryfach, ac mae gostyngiad o tua un rhan o dair mewn cynnwys deunydd.

Alla'i ddim eu gwerthu. Mymryn fan hyn a fan draw. Dwi wedi eu prisio felly bod modd rhoi 'mark-up' cyfanwerthu a manwerthu, yr holl bethau hyn. Ond does dim diddordeb. Dim diddordeb gan Heals, dim diddordeb gan Liberty, oherwydd eu bod yn sownd yn 1953, rhwch inni ganol y ganrif fodern.

Sgil Effaith mewn Byd Holistig

Mewn byd absoliwt, mae 'na rywbeth a elwir yn sgîl-effaith. Nid oes y fath beth â sgîl-effaith, dim ond effeithiau. Efallai nad ydynt yn effeithiau yr ydych ei eisiau, ond maent yn rhan annatod o'r effaith gorffenedig : i gyrraedd Tenerife mewn 2 awr, neu beth bynnag, mae'n rhaid i chi edrych ar yr holl effeithiau. Felly sgil effaith o gael creu pethau mewn ffordd 'idiot proof' - drwy brosesau hyper-mecanyddol heb sgiliau - yw eich bod yn diweddu lan gyda chriw o idiots. Hynny yw, mae e siŵr o ddigwydd. Go brin y gall fod yn unrhyw ffordd arall. Bydd Byw yn dod yn llai boddhaol. Mae am gostio. Y gost fydd iechyd y person - sydd yn mynd i fod yn ddrud. Mae'r ymdeimlad o bwrpas i'r genhedlaeth nesaf, mae hynny'n hynod ddrud!

Stasis a Symud

Rwyf yn cymryd llawer iawn o ddiddordeb mewn 'cysur'. Gallwch eistedd yn un o'r cadeiriau hyn am oriau ac oriau am y rheswm hwn: mae yna gwestiwn o siâp, mae 'na gwestiwn o ansawdd, mae'r ffaith bod wyneb hwn nad yw'n llyfn, wedi'i sythu mymryn, mae ganddo gyd-effithiad uwch o ffrithiant, sef yr hyn mae clustogwaith yn ei wneud, ond bod clustogwaith yn ormod. Yr hyn yr ydych ei eisiau gan strwythur, sydd yn mynd i gefnogi corff, yw cryfder a hyblygrwydd. Yr hyn yr ydych ei eisiau oddi wrth safbwynt cysur tymor hir yw mymryn o symudiad, oherwydd pan fyddwch yn cyflwyno symudiad bach iawn, mae'n atgoffa eich corff, er eich bod yn eistedd ac rydych yn gyfforddus, rydych yn dal i fod yn actif. Os siaradwch â rhywun yn dysgu techneg Alexander, nid ydynt yn defnyddio'r gair osgo, gan fod hynny yn awgrymu eu bod yn sefydlog. Byddent yn dweud, mewn gwirionedd, eich bod yn edrych am symudiad. I fod yn eglur. Felly, rydych eisoes yn mynd peth ffordd i hyn yr wyf am ei gael o'r byd y rydym yn trafod - sef cyfathrebu, sef bod yn agored. Dwi wrth fy modd yn eistedd o gwmpas bwrdd bwyd a bwyta a thrafod. Mae'r ffaith fod yna fwrdd rhyngoch. Mae'n rhoi eich gofod eich hun i chi, ond mae'n rhywbeth yr ydych yn rhannu. Mae yna rywbeth am yr agwedd yma o ddefnyddioldeb sydd, yn fy marn i, o gymorth mawr.

Ffwl prawf a Risgiau

Dywedodd fy athro, sydd wedi hen fynd erbyn nawr, taw crefftwaith yw saernïaeth risg. Sy'n dod yn ôl at yr hyn roeddem yn ei drafod, yn sôn amdano o'r blaen, am 'idiot-proof' - nid crefftwaith ydyw. Rwy'n siarad am yr hyn mae'n ei olygu i greu pethau. Mae 'gwneud pethau' yn lefelwr. A'r syniad yma ein bod mewn byd lle nad ydym yn creu pethau: yn gyntaf - pam? Yn ail - mae'n amlwg nad yw hyn am ddigwydd - A ydym am fod mewn cyflwr llonydd? Nah. Does dim byd am hynny sydd yn apelio. Y peth arall yw hwyl: a yw'n hwyl? Dwi'n galw'r deng mlynedd ar hugain diwethaf yn y celfyddydau gweledol yn 'oed yr eironi'. Ac mae'n balet cyfyngedig iawn. Mae eironi yn slic ac mae ganddo fath penodol o 'chic' ond mae yna arwahanrwydd, mae'n gam i'r ochr - rydych yn edrych ar bethau o'r tu allan. Mae'n ymddangos i mi fod eironi wedi bod yn gwbl dreiddiol yn y byd dylunio ers 1980. Philip Stark a'r holl stwff Brit-celf. Maen nhw i gyd yn eironig. Maent i gyd yn gweithio trwy gyfeirio at rywbeth sydd eisoes yn bodoli, ac nid yw hynny o ddiddordeb i mi.

Dylai'r byd crefft fod mewn sefyllfa i arbrofi, ond yn anaml gwelwn hyn. Nid oes diddordeb mewn arloesedd technegol - ychydig efallai ym myd pensaernïaeth, ond nid yw yno ar lefel tai dai ar gyfer pobl. Iawn, mae yna ychydig mwy o inswleiddio ac mae'n cynnwys rheoliadau adeiladu, ond nid yw'n cydio. Sut rydym yn ymdrin â'r syniad bod y tŷ yn ymateb i'r hinsawdd? Dyna lefel mynediad, ondife? Yn syth o flaen eich wyneb. Gwrthod syllu arno. Yn osgoi materion o bensaernïaeth, dylunio, lles. Mae ar y lefel honno.

Strwythur

Dyma sy'n bwysig imi: y ffordd y mae wedi'i greu, profiad y cwsmer, y person sy'n eistedd arno. Rwy'n hidio am yr effaith amgylcheddol ac wedi fy swyno gan y saernïaeth. Mae strwythur imi fel gramadeg yw i berson geiriau, neu gywair i gerddor. Mae strwythur yn anochel. Mae e yno, hwnna yw'r sgerbwdd. Ond prin ddim o'r cyrsiau dylunio sydd ag elfennau sy'n ymdrin â strwythur, mae'n estron. Rwyf wedi cymryd diddordeb ynddo yn amlwg - rwy'n ddyslecsig. Oherwydd bod y gair ysgrifenedig yn rhywbeth yr wyf wedi dysgu, yn fy mlynnyddoedd cynnar, i

osgoi . Dyna fantais enfawr oherwydd eich bod yn cael eich ystyr o rywle arall. Oni'n deall strwythur cyn i mi fedru darllen. A beth rwy'n ceisio ei wneud yw cyfuno'r rhain, ond wnewch chi byth cael y gorau allan unrhyw un ohonynt yn unigol. Mae'n debyg, os ydych am ddylunio car cyflym iawn, car rasio, mae'n mynd i fod yn ofnadwy yn gwneud popeth arall. Does unman ar gyfer eich siopa, unlle i'w barcio, mae'n ddrud, ac yn gadael y glaw i mewn. Mae'n anaddas ar gyfer bob dim, ac eithrio ei fod yn hynod o gyflym. Felly, nid ydym eisiau un o rheina. Ac mae'r un peth yn berthnasol i steil. Yr hyn rwy'n ceisio ei wneud wrth strwythuro fy nghadeiriau, yw cael yr holl bethau hyn i weithio gyda'i gilydd. Mae'r hyn yr ydych yn chwilio amdani o ran strwythur yr un peth ar hyn yr hoffech o ran cysur yn yr un peth a'r hyn y hoffech o ran strwythur, sy'n handi.

Rhialtwch

Rydym yn cael y sgwrs hon, ond yn wynebu ein gilydd, ddim wrth ymyl ein gilydd. Sef yr hyn sy'n digwydd gyda bron pob ardal eistedd gyhoeddus. Dyma'r sefyllfa ar ei waethaf. Dwi wedi gwneud pethau fel 'na, ma'n siwr mod i wedi creu mwy o seddau cyhoeddus nag unrhyw beth arall, dim ond oherwydd dyna mae pobl eisiau. - sydd dda i ddim i neb. Mae llawer o fy seddau cyhoeddus yn rhoi'r dewis i gael eich lle eich hun, neu i rannu. Ac mae'r opsiwn hynny'n eich gwneud yn fwy agored. Mae 'na deinamig am y peth ac mae' na lawenydd. Mae yna rywbeth yn y celfyddydau gweledol sydd wedi bod ddifoesol. Dydw i ddim yn chwilio am rinweddau, ond yr wyf yn meddwl bod moeseg yn ofnadwy o bwysig. Mae bod yn llawen yn ofnadwy o bwysig, ac os nad oes gennych farn yna manaman ichi roi'r ffidil yn y to. Yr ydych yn dod ar draws cymaint o bethau lle gadewir y cwestiwn yn agored.- ffilm neu ddrama neu beth bynnag, a dyma'r broblem. Nid am hyn rydym yn son. Mae'n ymwneud ag atebion, neu fel arall pam trafferthu? lawn, tynnwch sylw ati - ond nid oes angen y diwylliant cyfan i wneud hyn. A dyna beth sydd wedi bod yn digwydd.

Rôl yr Artist

Mae ein rôl ni yn wirioneddol syml. Mae fy rôl i yn syml. Sef gwneud pethau sy'n berthnasol i nawr ac yfory. Er mwyn sicrhau bod y fytholeg yn berthnasol, ei fod yn symud i mewn i'r dyfodol. Efo'r mater amgylcheddol - mae'n llawer mwy na hynny oherwydd ei fod yn mynd drwy lafur twp, a'r holl bethau yma - dyma beth y gallwch ei wneud. Sydd LAWER mwy diddorol?

www.davidcolwell.com



"O" Range Table, David Colwell



*Drwg Yn Y Caws,
Gydweithredol/Troedyrhiw*



*Eisteddfod Cwmffradach, Rhodri ap Hywell
a Meleri Williams*

Cyfweliad Euros Lewis

Y Draffodaeth Theatr

Rwy'n gweithio gyda thri chyfrwng ar hyn o bryd: Theatr Gydwethredol Troed-y-rhiw, Radio Beca a Wes Gle sef cwmni cynhyrchu teledu. Rwy'n meddwl am y tri chyfrwng fel agweddau o'r un peth: hynny yw, mae popeth dwi'n trafod yn mynd ar draws y cyfryngau hyn i gyd ac mae'n fater o adnabod p'un yw'r prif gyfrwng ar gyfer y gwaith hwnnw. Mae'r theatr yn tueddu arwain fel prif gyfrwng am fod gen i ddiddordeb yn y draffodaeth theatr sydd yn ddibynnol ar bobl, ar eu sgwrs a'u hymateb. Yr angen sydd gan bobl i fod o fewn rhyw fath o sgwrs sydd yn fwy nag ymateb, uniongyrchol "top pen" i beth sy'n digwydd. Rwy'n ystyried theatr nid fel sefydliad ond theatr fel deinameg, a ble bynnag mae cymdeithas, mae'r deinameg o theatr yn bodoli, hyd yn oed os mae'n anweladwy neu yn y lle rhithiol yna o fod o fewn meddyliau pobl.

Os oedd rhaid i mi ddisgrifio gweithgareddau Theatr Gydwethredol Troed-y-rhiw, byswn yn dweud bod Theatr Troed-y-rhiw yn derm neu'n enw ar rywbeth sydd eisoes yn bodoli o fewn y diwylliant Gymraeg. Yng Ngheredigion, yn arbennig, mae theatr yn gyfrwng o fynegiant ac o weithredu yn greadigol sydd â statws uchel o fewn y gymdeithas. Mae'n bwysig peidio â chyfyngu'r syniad yma o theatr at ffurfiau normail o lwyfan, drama, llinellau, naratif ayyb. Mae Theatr Troed-y-rhiw rhannu ei wreiddiau â theatr ôl-ddramataidd, ffurf sydd llawer mwy i'w wneud â bod gyda'n gilydd a rhannu profiadau.

Cynaliadwyedd Ddiwylliannol

Mae yna nifer o themau a ddiddordebau tu ôl i'r tri chyfrwng sy'n gyrru'r gwaith, ond yr hyn sy'n wir am y gwaith i gyd yw ei fod ynglyn â bywyd y diwylliant lleiafrifol ac anghydfurfiol (yng Nghymru) a'i gynaliadwyiaeth. Nid cynaliadwyedd yn yr ystyr o ddal 'mlâ'n, ond yn yr ystyr o greu a chynnal gallu'r diwylliant i greu, oherwydd os nad yw'r diwylliant yn creu, mae'n stopio bod. Mae (y diwylliant) yn ddibynnol ar bobl yn cyd-greu, a'r cyd-greu hwn sy'n achosi ac sydd yn sylfaenol i anghydfurfioldeb (y diwylliant): mae'n mynd yn hollol yn groes i'r patrwm o ddarparwyr a chwsmeriaid, i roi'r termau mwyaf cyfoes o beth yw cydymffurfio. Dyma pam rwy'n sôn am y gwahaniaeth rhwng "Culture" a "Diwylliant".

“Culture” a “Diwylliant”- Hierarchaeth ac Anghydfurfioldeb.

Y gwahaniaeth mawr rhwng Culture a Diwylliant yw bod Culture i 'neud â hierarchaeth, un ffordd neu'r llall: gwleidyddol, brenhinol, cyfalafol. Mae ynglyn â chynnal pyramid a chynnal grym o dop y pyramid. Mae ynglyn â chreu cyfoeth; a ry' ni'n gwybod mai dyma'r bygythiad mwyaf i gynaliadwyaeth o bob math: cynaliadwyedd amgylcheddol a diwylliannol. Rôl bwysig sy'n datblygu i ddiwylliannau lleiafrifol yw bod ganddyn nhw lais a grym i sefyll yn erbyn y strwythur sy'n cynnal cyfoeth a hierarchaeth “Culture”. Mae'r dewis gennym ni (i neud hyn) yng Nghymru i ddefnyddio a buddsoddi yn ein diwylliant ein hunain. Dydw i ddim yn meddwl bod ganddyn nhw'r dewis yn Lloegr am fod rhaid iddyn nhw ymladd o fewn yr hierarchaeth sy'n bodoli.

Diwylliant yw “collaborative action” a phobl mewn perthynas creadigol â'i gilydd. Mae e'n egalitariaidd ond yn radical hefyd am fod “diwylliant” wastad ynglyn â newid pethau a chreu ac ail greu cymdeithas a chymuned o hyd. Dyma pam, o ran y sefyllfa o gynaliadwyaeth yng Nghymru bod yna gymaint o botensial trafodaeth pan fo pobl yn symud i mewn i Gymru, maen nhw hefyd yn gallu symud mewn i'r drafodaeth yma, ac unwaith ma' nhw yn y drafodaeth, ma' nhw yn y diwylliant. Beth mae angen i ddiwylliant cynaliadwy i'w wneud, yw bod mewn disgwrs â diwylliannau eraill, ond heb gael ei fyddaru gan “Culture”.

Raymond Williams sy'n dweud ei bod hi'n anodd iawn i unrhyw beth newid o fewn system o hierarchaeth, oherwydd pwrpas hierarchaeth yw cynnal trefn. Ond os mae cymdeithas o bobl sy'n arddel perthynas gref â'i gilydd am uno a chydweithio i newid rhywbeth yna mae modd newid pethau o'r gwaelod lan. Enghraifft o'r hyn 'dwi'n sôn yw Radio Beca: rwy wedi danfon neges at y bobl a'r cymdeithasau sydd wedi cefnogi Radio Beca hyn yn hyn, i'w hannog i ddefnyddio Radio Beca fel cyfrwng i rannu eu gwerthoedd a'u gweledigaeth nhw â'u cymunedau.

Fy rôl i fel “agitator” neu ysgogydd o fewn y diwylliant yw helpu pobl i barhau i feddwl a gweithredu yn anghydfurfiol, yn ôl eu greddf. Os 'dy ni'n edrych yn hanesyddol ar beth sydd wedi digwydd tro ar ôl tro pan ein bod ni'n teimlo fod y diwylliant cydymffurfio neu “Culture” yn ein gwasgu ni mas o fodolaeth, trwy ein diwylliant rydym ni wedi ffeindio ffordd o fynegi rhywbeth gwahanol. Mae'r mynegiant hwn yn codi oherwydd ein bod ni wedi dod at ein gilydd, ac ymateb gyda'n gilydd: mae yna theatr o fynegiant wedi codi. Maen nhw'n creu byd llawn o sefydliadau Cymraeg, ac anaml iawn gwelwn ni rhain mewn adeiladau: pwynt sydd yn ddi-ddorol iawn i'r drafodaeth amgylcheddol. Prin iawn mae'r diwylliant Cymraeg yn mynegi ei hunan yn bensaernïol; y bensaernïaeth yw'r berthynas weithredol rhwng pobl â'i gilydd.

Yr Eirfa Gymraeg a Chymuned

Mae'r holl dermau Cymraeg gwahanol sy'n cyfateb yn fras i'r gair Saesneg “community”: cymuned, cymdeithas, cymdogaeth, bro ayyb yn llawn ystyr gwahanol: nid termau nebulous ydynt ond termau llawn ystyr sy'n disgrifio pethau penodol sy'n bodoli. Wrth waelod y termau mae cydgyfrifoldeb a chydweithio - nid cytuno! – mae anghytuno yn rhan o gydweithio a chydgyfrifoldeb. Anaml iawn mae consensws o fewn cymdeithas: mae ambyti trafodaeth a safbwyntiau gwahanol ond yn gytûn ar y cydgyfrifoldeb i siapio'r dyfodol.

Un o amcanion sefydlu'r Pwerdai oedd atgoffa pobl mai nhw sydd yn diffinio cymuned, nid llywodraeth (leol neu wladol) na rym allanol. Pe baem ni'n trio trefnu trafodaeth amgylcheddol o fewn "community" penodol neu gymuned, mae'n eithaf posibl byswn ni'n cael anhawster mawr i gynnal y drafodaeth honno. Ond pe bai'r cwestiynau hyn yn codi o drafodaeth o fewn y gymuned mi fyddai yna ymateb creadigol yn cael ei ddatblygu a fyddai yna ddim rhwystr i hynny.

Does dim rhaid i'r diwylliant anghydfurfiol (fel Theatr Troed-y-rhiw) yng Nghymru fod drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond rwy'n credu, mewn gwirionedd ei fod yn ffeindio ei lawn dwf yn y Gymraeg oherwydd mae'r Gymraeg yn diffinio gwahaniaeth ac yn mynegi fod yr hyn sydd yn cael ei ddweud yn wahanol. Ond yn sicr mae'r diwylliant a'r meddylfryd dwi'n sôn amdanynt yn bodoli o fewn cymunedau (fel yn rhai cymoedd y De) ble nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad gymaint bellach. Mae'r eirfa (y Gymraeg) wedi mynd ond mae'r meddylfryd o "collaborative action" yn dal i fodoli.

Dealltwriaeth Oddrychol

Mae yna sôn fod datblygu cynaliadwy yn rhywbeth mae mewnfudwyr neu bobl allanol yn dod ac yn "gwneud i" Gymru a'r Cymry: mae'r cwestiwn hwn yn perthyn i gwestiwn llawer ehangach oherwydd rhan o broblem "Diwylliant" o'i gymharu â "Culture" yw bod "Diwylliant" o safbwynt "Culture" yn anweledig. Felly os oes yna sefyllfaoedd o wrthdaro yn codi, maent yn codi oherwydd anallu bobl i weld sefyllfa yn llawn cyn dechrau gosod mas anghenion y sefyllfa sydd ohoni.

www.radiobeca.co.uk

www.theatrtroedyrhiw.com

Cyfweliad gyda Ann Shrosbree (Theatr Byd Bychan)

Cynaliadwyedd a'r celfyddydau: Yna ac yn awr

Rydym wastad wedi gwneud gwaith sy'n ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol, ers 1979 pan oedd yn eithaf anarferol. Mae'n thema graidd sy'n mynd drwy ein gwaith. Roedd ein perfformiadau cyntaf o flaen plant, sydd wastad mor agored, ac felly roedd yn bwysig bod y roeddem yn trafod am fod rhywbeth o werth, rhywbeth sydd angen iddynt ei wybod. Mae'r hyn sy'n cael ei gyflawni yn ffurfiannol, ac arweiniodd at gyfnod lle roeddem yn gweithio yn Affrica, ar ddatblygiad tramor, gan ddefnyddio'r celfyddydau

Gallwn olrhain o gyfnod pan oeddem fel llais yn yr anialwch, ond wedyn byddech yn cyrraedd pwynt penodol, er enghraifft mewn ysgol, a byddai plant yn dod yn ôl atoch gyda geiriau fel 'llygredd', sef rhywbeth na fuasent wedi bod yn ymwybodol ohono ddeng mlynedd ynghynt.

Mae'n wych bod yna lawer mwy yn digwydd, ond hefyd yn drist am ei fod wedi cymryd cymaint o amser, ac mor amlwg a pwysig yn nawr. Ond mae'n rhan o rôl yr artist - eich bod yn weithiau yn aros am weddill y byd i ddal i fyny. Mae dal i fod llawer mwy o waith i'w wneud. Ond nid yw'n digwydd.

Rôl y Celfyddydau wrth greu Dyfodol Cynaliadwy

Mae'n ymwneud â modelu arferion da a chefnogi newid mewn ymddygiad, cyfrannu i drafodaeth a'i wneud yn weladwy. Ac mae'n bwysig bod yn drylwyr am eich ymddygiad eich hun yn ogystal. I fyw'r hyn yr ydych yn sôn amdano, ac yna i gefnogi cynulleidfaoedd, neu bwy bynnag yr ydych yn gweithio gyda, i'w gadw mewn golwg. Dyna hanner y frwydr, er mwyn cadw pobl yn meddwl am y peth. Dyw hi ddim jest fel gwerau rydych yn ei ddysgu yn yr ysgol, mae'n fwy na hynny: mewn gwirionedd, beth yn union ydw i'n ei wneud?

Cymysgu Cenhadaeth a Chyflenwi

Roeddem wedi bod yn chwilio am adeilad am gyfnod hir, ac roeddem yn awyddus i greu rhywbeth oedd am arddangos i adeiladwyr lleol, ac i bawb, yr hyn sy'n bosibl gydag adeiladu amgylcheddol, cynaliadwy. Mae'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd, ac roedd yn teimlo fel nad oedd unrhyw beth yn ardal Aberteifi, ar yr adeg pan adeiladwyd hi, oedd yn dangos yr hyn oedd yn bosibl.

Dechreuodd y prosiect yn 2005 gyda chodi arian a dylunio, a fe'i hagorwyd yn 2008. Mae gennym drydan wedi ei gynhyrchu gan solar PV, dwr poeth solar, pypiau gwres ffynhonnell aer, gwresogi dan y llawr, lefel uchel o inswleiddio, casglwr dŵr glaw a thanc dŵr glaw enfawr cynaeafu o dan y maes parcio. Mae gennym do bywlys a llechi a ailgylchwyd ar y to. Rydym yn adeiladu ar safle hen waith brics, felly mae 'na ardal yn y cyntedd sydd wedi'i wneud o frics a gloddiwyd o'r ddaear ac o adeilad lleol oedd wedi'i ddymchwel. Mae'r waliau yn y tu blaen i gyd yn blethwaith a chlai mewn gwirionedd, wedi'i wneud allan o ddeunydd creu pypedau - rydym yn hen gyfarwydd â helyg a mwd a chlai. Mae'n le cyhoeddus, a phobol yn dod yma am bob math o wahanol resymau.

Rydym ar fin codi sgrin yn y cyntedd pan mae 'na ddigwyddiad ymlaen, fel y gall pobl edrych i weld ein defnydd o ynni a beth sy'n cynhyrchu beth mewn watiâu.

Celfyddydau yn y Cymuned

Mae Cymuned yn golygu cymaint o bethau. Mae cymaint o wahanol fathau o gymunedau. Rydym yn rhan o nifer o gymunedau gwahanol. Fel artistiaid rydym yn gatalyddion, ond rydym hefyd yn cynnal, yn cynnwys mewn ffordd. Y syniad hwnnw fod yr artist tu allan a thu mewn.

Hwyluso

Rydym yn cael eu gofyn i weinyddu digwyddiadau yn aml iawn. Rydym wedi gwneud ar gyfer sefydliadau yn y sector cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector, am sut y maent yn mynd i ddatblygu strategaethau ar gyfer delio â newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, sut y maent yn mynd i ymdrin â'r heriau. Rydym yn defnyddio dulliau hwyluso creadigol, felly nid dim ond perfformiadau a wnawn.

Mae'n blethiad o'n harferion datblygu tramor a'n harferion celfyddydol, i helpu pobl i feddwl am, a deall effaith eu hymddygiad, ac i edrych ar newid ymddygiad yn ogystal - nid trwy 'ddweud' wrth bobl, ond drwy eu cynorthwyo i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain.

Gallwch gael grŵp amrywiol iawn o bobl yn yr ystafell, ac mae gan y celfyddydau, rwy'n credu, ran i'w chwarae pan mae yna mwy nag un farn. Mae angen creu gofod diogel i ddeall gwahanol safbwyntiau heb gwmpo mas, ac er mwyn cyrraedd consensws, ffordd ymlaen, rhyw fath o weithredu. Rydym yn ceisio peidio â gadael sefyllfa gyda theimlad o dadrymuso, a all fod yn llethol pan fyddwch chi'n sôn am y pethau hyn, ond yn hytrach rydym yn hwyluso camau bach, pethau go iawn y gall pobl ei wneud. Newidiadau y gallant eu gwneud a fydd yn adeiladol.

Celfyddydau a Newid Ymddygiad

Nid yw Celf yn creu newid ymddygiad, ond gall gynorthwyo pobl i ddod o hyd i'r ffordd i newid eu hymddygiad. Mae ymateb emosiynol yn dda oherwydd mae ymateb emosiynol yn gyson yn arwain at weithredu - ond mae'n fwy na chatharsis.

Pan rydym yn gweinyddu'r broses, mae'r syniad o arwain i weithredu wastad dan sylw. Mewn perfformiadau nid yw mor hawdd, mae'n dibynnu beth yr ydych yn ei wneud. Rydym ar hyn o bryd yn ymarfer perfformiad sydd yn ymwneud ag arian a bancwyr, sy'n lot o hwyl. Nid yw'n amlwg efallai o ran cynaliadwyedd amgylcheddol, ond yna mae gennym un arall yn rhedeg ar y cyd sydd yn ymwneud ag iaith a'r diwylliant y'n diflannu, wedi'i leoli yn Siberia.

Celfyddydau mewn Partneriaith

Rydym yn gweithio gyda phobl fel yr Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Roedd problem gyda gwenoliaid duon, felly rydym wedi creu gwraig fawr hardd, deuddeg troedfedd - fforiwr Edwardaidd enfawr, gydag un neu ddau o gynorthwyr gwirion. Mae'n arwain teithiau maes - rydym yn gwneud blychau gwenoliaid duon gyda chynulleidfaoedd, ac yna rydym yn mynd ar deithiau maes yn chwilio am wenoliaid duon, ac mae'r blychau nythu hynny yn cael eu rhoi mewn gwahanol safleoedd yng Ngogledd Cymru. Gall pobol wedyn gweld y rhain ar wefan Natur Gogledd Cymru a bydd gwe-gamerâu bach ar rai ohonynt, i weld a oes unrhyw wenoliaid du wedi nythu i mewn 'na. Mae llawer iawn o ddysgu, ac mae angen inni ddysgu bob tro gan fod angen ychydig o arbenigedd ar beth bynnag sy'n digwydd i fod yn destun y daith maes. Ond hi yw'r cyfrwng.

Rydym wedi creu cyfrwng artistig i sefydliadau neu bobl eraill eraill i'w defnyddio i gyfleu eu pryder neu i addysgu. Yr hyn yr ydym wedi bod yn ei ddweud ers sbel : Hei, edrychwch, gallwn helpu gyda hyn, pam na newch chi ein defnyddio i ni wneud hyn? Ac weithiau daw sefydliadau at artistiaid i wneud hynny, mae'n dibynnu pwy sydd yn y sefydliad a faint o wir weledigaeth sydd ganddynt. Oes os fwy o hyn, y mwya gall bobl weld pa mor effeithiol mae'r celfyddydau yn hyn o beth, ac mae hynny'n golygu mwy o bobl yn deall sut i weithio gydag artistiaid a pha mor werthfawr y gallant fod.

Creu Newid trwy Arian

Rwy'n credu y dylai Cyngor y Celfyddydau fod yn ychydig fel yr Undeb Ewropeaidd, sydd â themâu trawsbynciol mewn ceisiadau am gyllid lle mae'n rhaid i bobl ddangos, o ran ariannu unrhyw brosiect, sut mae hyn yn ymwneud â chyd-nerthu wrth wynebu newid yn yr hinsawdd. Byddai hynny'n cael pawb i feddwl am y peth. Ar gyfer unrhyw fath o gyllid Ewropeaidd mae angen ichi ymateb i dair thema drawsbynciol - un am gyfartaledd, un am gynaliadwyedd amgylcheddol a'r llall ynglŷn â TG, sy'n golygu y byddai'n rhaid i bob artist i ddechrau meddwl am y peth, yn union fel y dylai Gyngor y Celfyddydau.

www.smallworld.org.uk

small world theatre
theatr byd bychan



Creu Lleoliad Cynaliadwy: Yn Theatr Byd Bychan rydym wedi adeiladu lleoliad ar gyfer y celfyddydau a'r chymuned greadigol. Mae'n ofod hyblyg ar gyfer y sefydliad i ddatblygu gwaith newydd ac i dyfu mewn nerth. Nid dim ond yr adeilad sy'n creu dyfodol di-garbon. Mae llawer o prosiectau Theatr Byd Bychan yn cael eu cysylltu ag agweddau eraill ar ymwybyddiaeth amgylcheddol, bwyd, datblygu, a diwylliant. Mae'r gofod, ein gwaith a'n hethos yn gydgysylltiedig.

Theatr Byd Bychan